

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo gynadledda drwy Zoom	Bethan Davies
Dyddiad: Dydd Llun, 2 Tachwedd 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.20	0300 200 6372
	SeneddCyllid@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

Rhag-gyfarfod anffurfiol – Adborth ar Fil Marchnad Fewnol y DU (14.20–14.30)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (14.30)**
- 2 Papur(au) i'w nodi (14.30)** (Tudalennau 1 – 3)
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2020
 - 2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – 21 Hydref 2020** (Tudalen 4)
 - 2.2 PTN 2 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at Archwilio Cymru: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – adran 118 – 27 Hydref 2020** (Tudalen 5)
 - 2.3 PTN 3 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd: Craffu ar reoliadau Covid-19 – 22 Hydref 2020** (Tudalennau 6 – 8)



2.4 PTN 4 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Data Cwynion y GIG – 27 Hydref 2020

(Tudalennau 9 – 10)

3 Goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru – Craffu ar Amcangyfrif 2021–22 a'r Adroddiad Dros Dro: Sesiwn dystiolaeth

(14.30–15.30)

(Tudalennau 11 – 94)

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Lindsay Foyster, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Nicola Evans, Pennaeth Cyllid, Archwilio Cymru

Papurau ategol:

FIN(5)–20–20 P1 – Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2022

FIN(5)–20–20 P2 – Gwybodaeth ategol ar gyfer yr Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2022

FIN(5)–20–20 P3 – Adroddiad Interim – Asesiad o gynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol 2020–21 yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2020

FIN(5)–20–20 P4 – Llythyr gan Archwilio Cymru – Gwaith Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru – 1 Hydref 2020

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Egwyl (15.30–15.40)

4 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020–21: Sesiwn dystiolaeth

(15.40–16.40)

(Tudalennau 95 – 196)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys

Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-Adran Rheolaeth
Ariannol

Papurau ategol:

FIN(5)-20-20 P5 – Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

FIN(5)-20-20 P6 – Dyraniadau prif grŵp gwariant

FIN(5)-20-20 P7 – Nodyn Esboniadol

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

5 Bil Marchnad Fewnol y DU

(16.40-17.00)

(Tudalennau 197 – 216)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys

Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-Adran Rheolaeth
Ariannol

Papurau ategol:

FIN(5)-20-20 P8 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer eitemau 1 a 2 yn y
cyfarfod ar 9 Tachwedd**

(17.00)

7 Bil Marchnad Fewnol y DU: Trafod y dystiolaeth

(17.00-17.10)

**8 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21: Trafod y
dystiolaeth**

(17.10-17.20)

**9 Goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru – Craffu ar Amcangyfrif
2021–22 a'r Adroddiad Dros Dro: Trafod y dystiolaeth
(17.20–17.30)**

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:
 Fideo gynadledda drwy Zoom <http://senedd.tv/cy/6555>
 Dyddiad: Dydd Llun, 12 Hydref 2020
 Amser: 14.30 – 16.20

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd) Alun Davies AS Siân Gwenllian AS Rhianon Passmore AS Nick Ramsay AS Mark Reckless AS
Tystion:	Adam Al-Nuami, Awdurdod Cyllid Cymru Dyfed Alsop, Awdurdod Cyllid Cymru Sam Cairns, Awdurdod Cyllid Cymru Rebecca Godfrey, Awdurdod Cyllid Cymru Guto Ifan, Canolfan Llywodraethiant Cymru Ed Poole, Canolfan Llywodraethiant Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc)



	Martin Jennings (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd)
--	----------------------------------------------------------------

1 Awdurdod Cyllid Cymru: cyfrifon blynyddol 2019 i 2020 – Sesiwn briffio technegol

1.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn briffio technegol ar Adroddiad Perfformiad Awdurdod Cyllid Cymru 2019 – 2020 gan Dyfed Alsop, Prif Weithredwr; Rebecca Godfrey, Prif Swyddog Strategaeth; Sam Cairns, Swyddog Gweithredu; ac Adam Al-Nuami, Pennaeth Dadansoddi Data.

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

2.1. Cafwyd ymddiheuriad gan Mike Hedges AS.

3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – 2 Hydref 2020

4 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 3

4.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Ed Poole, Uwch Ddarlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru a Guto Ifan, Cydymaith Ymchwil, Canolfan Llywodraethiant Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2021–22 Comisiwn y Senedd Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft yn amodol ar fân newidiadau.

7 Trafod gwybodaeth gan Gyllid a Thollau EM mewn perthynas â Chyfraddau Treth Incwm Cymru

7.1 Nododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cyllid a Thollau EM ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth

8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020–21: Trafod y dull o weithredu

8.1 Trafododd y Pwyllgor sut y bydd yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020–21.

9 Trafod Bil y Farchnad Fewnol

9.1 Trafododd y Pwyllgor bapur y Gwasanaeth Ymchwil a gohebiaeth ynghylch Bil y Farchnad Fewnol.

9.2 Cytunodd y Pwyllgor y bydd y Cadeirydd, Llyr Gruffydd MS ac Alun Davies AS yn mynd i sesiwn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 2 Tachwedd, i gael tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar drefniadau ymadael â'r UE.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gryffydd MS / AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid / Chair of the Finance Committee
Senedd Cymru / Welsh Parliament
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1SN

21 Hydref 2020

Annwyl Llyr

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a chostau a manteision posibl Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Yn fy llythyr atoch ar 2 Hydref nodais ein bod wrthi'n paratoi rheoliadau drafft, ar gyfer ymgynghoriad, i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig cyntaf ac ymrwymais i rannu copi o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, a fyddai'n cyd-fynd â'r rheoliadau, gyda'r Pwyllgor Cyllid.

Rwy'n falch o roi gwybod ichi fy mod wedi lansio ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft ar 12 Hydref i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig cyntaf. Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/rheoliadau-i-sefydlu-cyd-bwyllgorau-corfforedig>. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys Aseiad Effaith Rheoleiddiol sy'n amlinellu costau a manteision posibl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig arfaethedig. Amgaeaf gopi o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol i sylw'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 4
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Martin Peters
Pennaeth y Gyfraith a Moeseg
Archwilio Cymru

27 Hydref 2020

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – adran 118


Annwyl Martin,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi, lle gwnaethoch nodi ymhellach eich barn ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o ran adran 118 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Roedd hyn ymhellach i'r pryderon a godwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei llythyr dyddiedig 5 Rhagfyr 2019 a'i ohebiaeth ddilynol ar y mater hwn.

Bu'r Pwyllgor yn trafod eich llythyr yn ystod y cyfarfod ar 9 Hydref, a nodwyd eich pryderon.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a Chadeiryddion Pwyllgorau Cyllid a Chyfrifon Cyhoeddus y Senedd.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddCymunedau@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddCommunities@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

22 Hydref 2020

Annwyl Elin

Craffu ar reoliadau Covid-19

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref 2020, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfodydd ar 12 Hydref a 19 Hydref 2020.

Roedd eich llythyr yn ceisio canfod a fyddai'n briodol bod Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at Reoliadau newydd lle'r oedd yr egwyddor sylfaenol eisoes wedi bod yn destun craffu, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Busnes i wneud penderfyniad ynghylch lefel y gwaith craffu pellach a allai fod yn ofynnol cyn y ddadl. O ganlyniad, gwnaethoch ofyn am ein barn ynghylch a oedd posibilrwydd o alluogi rhai Rheoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 i gael eu blaenoriaethu i'w trafod mewn amgylchiadau o'r fath.

Nid ydym yn credu bod yr opsiwn a awgrymwyd gan y Pwyllgor Busnes yn briodol am sawl rheswm. Yn ein barn ni, ni ddylai cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw fath o ddeddfwriaeth fod ar sail 'mewn egwyddor'. Felly nid ydym yn gweld y bydd gennym rôl wrth gymeradwyo (neu wrthod) unrhyw asesiad gan Lywodraeth Cymru bod cyfres benodol o reoliadau, mewn egwyddor, yr un fath â chyfres flaenorol. At hynny, byddai gwerth asesiad o'r fath yn amheus yn ein barn ni, o gofio er y gallai cyfres newydd o reoliadau ddilyn amcan polisi tebyg, y gallent fod yn destun pwyntiau i adrodd yn eu cylch o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 o hyd.

Credwn fod ein gwaith craffu ar yr holl reoliadau Covid-19 wedi bod yn effeithlon ac amserol. Rydym wedi adrodd ar y mwyafrif o reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gwneud cadarnhaol cyn pen 14 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn. Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn wedi galluogi'r Senedd i bleidleisio ar a ddylai'r rheoliadau aros mewn grym ymhell cyn yr 28 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984* a'r 40 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf y Coronafeirws 2020* (y cydsyniodd y Senedd iddi ym mis Mawrth eleni). Byddem hefyd yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol wedi'u gosod ar ddydd



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

0300 200 6565

Gwener; mae hyn, ynghyd â'n slot cyfarfod ar fore Llun yn golygu y bu, yn anochel, bwlch o wythnos rhwng y gosod a chraffu ar y rheoliadau gan y Pwyllgor, waeth beth fu'r gwaith a oedd yn angenrheidiol i baratoi adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor. Rydym hefyd yn tynnu sylw at sylwadau Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn y Cyfarfod Llawn ar [6 Hydref 2020](#), yr ydym yn eu croesawu:

“Rwyf i hefyd yn croesawu'r ffaith bod y pwyllgor, o bryd i'w gilydd, wedi ein helpu ni o ran cysondeb mewn darpariaethau deddfwriaethol. Mae hynny'n rhan o bwynt y craffu. Rydym ni'n gwneud y rheoliadau hyn mewn modd cyflym oherwydd y darlun sy'n newid yn gyflym o ran y coronafeirws, ac rwy'n credu bod gwerth i'r pwyllgor ymgymryd â'i swyddogaeth graffu cyn i'r ddeddfwrfa wedyn allu arfer ei swyddogaeth wrth benderfynu pa un a all y rheoliadau hyn barhau ai peidio.”

Rydym, serch hynny, wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau i hwyluso proses graffu gyflymach fyth. Gwnaethom drafod a fyddai cyfarfod yn amlach nag unwaith yr wythnos yn hwyluso'r gwaith craffu ar reoliadau a osodir gan Lywodraeth Cymru ar wahanol adegau yn ystod yr wythnos waith flaenorol. O ystyried arfer Llywodraeth Cymru o osod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol ar ddydd Gwener, gwnaethom hefyd ystyried a fyddai'n ymarferol symud slot cyfarfod rheolaidd ein Pwyllgor i fore Mercher, er mwyn ystyried rheoliadau a wnaed y dydd Gwener blaenorol ac i osod adroddiad mewn pryd ar gyfer dadl y prynhawn hwnnw. Gwnaethom hefyd drafod a allem roi ymrwymiad ffurfiol i adrodd ar reoliadau gwneud cadarnhaol o fewn terfyn amser o 14 diwrnod.

Daethom i'r casgliad, fodd bynnag, bod dulliau o'r fath yn debygol iawn o arwain at broblemau sylweddol o ran amserlennu ar gyfer Llywodraeth Cymru ac Aelodau o'r Senedd. At hynny, o ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth hon, mae unrhyw ffurfioli o ran ein trefniadau presennol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 angen ei ystyried ochr yn ochr â nifer cynyddol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin ag ymadawriad y DU â'r UE, yn anad dim oherwydd y gallai ffurfioli o'r fath ei gwneud yn ofynnol i gael adnoddau ychwanegol neu batrymau gwaith gwahanol. Mae'r pwynt olaf hwn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod ein cylch gwaith yn golygu bod ein rhaglen waith wedi'i chyfyngu'n fawr ar hyn o bryd gan y gwaith craffu angenrheidiol a phwysig ar is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE a memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau sy'n ymwneud ag ymadawriad y DU â'r UE, gan gynnwys Bil Marchnad Fewnol y DU sy'n arwyddocaol o ran y cyfansoddiad.

Rydym yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud â'r pandemig wedi'u blaenoriaethu yn amser y Llywodraeth yn ystod sesiynau'r Cyfarfod Llawn. Gwnaethom hefyd ystyried a allai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft os yn bosibl o gwbl wrth lunio deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 o dan adran 45C o Ddeddf 1984. Er ein bod yn gwerthfawrogi efallai na fydd hyn yn ymarferol, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a oes cyfleoedd o gwbl i'w defnyddio.



Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod gwaith craffu ar reoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn cael ei gynnal mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid peryglu ein swyddogaeth graffu o dan unrhyw amgylchiadau.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion pob pwyllgor.

Yn gywir



Mick Antoniw AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English



Dyddiad: 27 Hydref 2020

Mr Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

Annwyl Vaughan

Data am Gwynion y GIG

Fel y gwyddoch, mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 yn pwysleisio'r angen i gyrff y GIG yng Nghymru ddysgu o gwynion yn ogystal â chofnodi a monitro gwybodaeth am gwynion. Byddwch yn cofio fod Keith Evans, yn ei Adroddiad 'Defnyddio Cwynion yn Rhodd' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014, wedi nodi amrywiad ledled Cymru wrth weithredu'r rheoliadau a 'Gweithio i Wella'. Argymhellodd fod cwynion a'r broses o ddadansoddi themâu a thueddiadau yn cael eu cofnodi'n well ac yn fwy cyson.

Ym mis Tachwedd 2014, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd: 'Mae wedi cychwyn ar nifer o ddarnau o waith, gan gynnwys datblygu set ddata genedlaethol ar gwynion i sicrhau bod holl sefydliadau'r GIG yn cyhoeddi gwybodaeth mewn ffordd gyson, sy'n hawdd i'r cyhoedd ei deall ac yn caniatáu cymariaethau ystyrlon ledled Cymru. Aeth yn ei flaen i ddweud bod 'nifer o argymhellion ymarferol i'w cael yn adolygiad Evans a fydd yn helpu'r GIG yng Nghymru i ddefnyddio cwynion i wella'r ffordd y mae'n darparu gofal iechyd yn y dyfodol. Bydd llawer o'r materion y mae'n eu nodi yn gofyn am newid diwylliant, a fydd yn cymryd amser ac ymdrech ar bob lefel o'r GIG. Rwy'n bwriadu ceisio sicrhau newid diwylliant o'r fath yn y cyfarfodydd rwy'n eu cynnal gyda staff ar bob lefel yn y GIG er mwyn gallu gweithredu gyda'n gilydd i wella'n sylweddol y ffordd o ymdrin â phryderon.'

Tudalen 1 o 2

Roeddwn yn falch iawn o glywed cefnogaeth mor gadarnhaol i'r cynigion pwysig hyn. Gwn fod gwaith wedi cychwyn, gan gynnwys gwaith o dan y prosiect 'Unwaith i Gymru', ond bron i chwe blynedd yn ddiweddarach mae data cwynion yn dal i gael eu cofnodi a'u hadrodd yn anghyson, mae'r defnydd o Datix yn anghyson ac yn dal i amrywio, ac mae'n ymddangos bod dulliau anghyson o gyhoeddi data cwynion yr oedd eich rhagflaenydd yn eu rhagweld.

Hyd yn oed cyn y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, roeddwn yn awyddus i weld data cwynion yn cael eu casglu a'u cofnodi'n gyson i ganiatáu'r dadansoddiad hwn ac i gefnogi gwelliant. Gyda'r pwerau Safonau Cwynion o dan Ddeddf 2019, cyn bo hir byddaf yn ceisio data cwynion rheolaidd a chyson gan gyrrff y GIG yng Nghymru, ac rwy'n pryderu nad yw gwelliannau a safoni cofnodi cwynion a data cwynion, a ddechreuwyd yn 2014, wedi dwyn ffrwyth eto.

Mae'r rhain yn faterion hynod bwysig ar gyfer y diwylliant a'r dull yng nghyrrff y GIG, ar gyfer atebolrwydd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru ac ar gyfer y gwaith Safonau Cwynion y mae fy swyddfa yn ei wneud erbyn hyn. Byddwn yn hynod ddiolchgar am ddiweddariad ynglŷn â'r gwaith cyson a ddechreuwyd yn 2014 ar gofnodi cwynion a chyhoeddi data am gwynion. Gofynnaf i'r gwaith a ddechreuwyd yn 2014 ddod i ben cyn gynted â phosibl.

Bydd y data hwn yn werthfawr i'm ngwaith Safonau Cwynion, ond yn bwysicach fyth, bydd yn helpu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ganolbwyntio ar ddysgu o'r hyn sydd wedi mynd o'i le, a pharhau'r gwaith ar wella. Felly, gofynnaf i gael cwrdd â chi i weld sut y bydd y gwaith a ddechreuwyd yn 2014 yn dwyn ffrwyth.

Rwy'n copïo llythyr hwn i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gan ei fod yn fater y tynnwyd sylw ato mewn sesiynau craffu diweddar gyda'r ddau bwyllgor.

Yn gywir



Nick Bennett
Ombwdsmon

Copi: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyllid

SeneddFinance@senedd.wales

John Griffiths AS, Cadeirydd - Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a

Chymunedau SeneddCommunities@senedd.wales



Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022

Hydref 2020

Paratowyd ar y cyd a'i gyflwyno gerbron y Senedd dan Adran 20(1)
o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru, a chyflwyno'r amcangyfrif hwnnw gerbron y Senedd o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.

Yn unol ag Adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sy'n angenrheidiol i'r Archwilydd Cyffredinol ymarfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Senedd wneud unrhyw newidiadau yn yr amcangyfrif yr ystyria'u bod yn briodol, ond ni ellir gwneud dim newidiadau oni fydd:

- ymgynghori wedi bod â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- oni fydd unrhyw sylwadau a wneir gan y naill neu'r llall wedi eu cymryd i ystyriaeth.

Rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn wneud cynnig yn y Senedd dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronrus) a thaliadau a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau i'w cynnwys mewn cysylltiad â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffon yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn achosi oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

Cynnwys

Rhagair	4
Cwmpas Cyllideb 2021-22	6

Rhagair

Mae Archwilio Cymru yn bodoli i roi i'r Senedd a phobl Cymru yr hyder mewn sector cyhoeddus sy'n perfformio'n dda ac yn atebol.

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Cyllid rydym wedi symleiddio ffurf ein Hamcangyfrif am 2021-22 yn sylweddol. Ein Hamcangyfrif yw Cwmpas y Gyllideb a gynhwysir yn y ddogfen hon. Byddwn yn darparu ar wahân wybodaeth gefnogi am yr Amcangyfrif er mwyn i'r Pwyllgor Cyllid ddeall sut y byddwn yn defnyddio'r arian y gofynnir amdano.

Gosodwyd allan yr ansicrwydd digynsail ynglŷn â'r ariannu sydd ar gael yn y dyfodol gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ei llythyr ar 11 Awst 2020. Rydym yn cydnabod hyn, ac yn ymateb drwy leihau ein galw ar ariannu refeniw WCF £120,000 yn 2021-22, ynghyd â £80,000 yn ychwanegol, sef y gostyngiad dwy-flynedd yn yr ariannu ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol. At hynny, rydym yn cydnabod y pwysau anghyffredin ar y cyrff rydym yn eu harchwilio, ac rydym yn ymateb drwy gynnig peidio â chynyddu cyfraddau ein ffioedd yn 2021-22.

Gyda'r cynnydd anferth mewn gwariant cyhoeddus i ymateb i'r pandemig COVID-19 byd-eang, bydd ein gwaith yn bwysicach nag erioed. Mae ein Hadroddiad Dros Dro yn nodi sut rydym wedi ymateb i'r her hon yn 2020-21 – mae'r Amcangyfrif hwn yn esbonio sut y bwriadwn ddefnyddio cyllid sydd wedi ei gytuno gan y Senedd i gefnogi ein gwaith yn y dyfodol.

Mae ein rhaglen eang o waith gwerth yr arian yn hanfodol ar gyfer atebolrwydd cadarn gan y Senedd drwy ei Phwyllgorau Cyhoeddus, Cyllid a Phwyllgorau eraill. Rydym yn archwilio cyfrifon a llywodraethiant dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu'r prif ddull sicrwydd am y ffordd y mae arian cyhoeddus yng Nghymru'n cael ei reoli. O Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, drwy bron bob maes sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus, gall yr Archwilydd Cyffredinol ddilyn y bunt gyhoeddus ble bynnag y caiff ei gwario.

Rydyn ni'n ymwybodol tu hwnt o'n cyfrifoldeb i rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gadw gafael ar ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godwn, cyn belled nad yw hynny'n peryglu ansawdd archwilio a'r sicrwydd y gallwn ei roi. Mae ein gwybodaeth gefnogi yn nodi manylion am ein rhaglen ein hunain i sicrhau gwerth yr arian a'r targedau arbedion a gaiff eu pennu gan y Bwrdd i ariannu ein rhagolwg ariannol dros y cyfnod canolog.

Yn 2021-22 rydym wedi gosod targedau arbedion heriol o ran rheoli swyddi gwag a meysydd gwariant eraill gan gynnwys ein costau teithio. Bydd hyn yn anodd ei gyflawni, ond bydd yn golygu y gallwn gyflawni ein huchelgais tra byddwn yn gostwng ein galw ar WCF ac yn cynnwys y ffioedd a godwn ar gyrff sy'n cael eu harchwilio.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn y gorffennol wedi cefnogi ein cynigion trawsnewid uchelgeisiol, gan gynnwys ein symudiad i wneud mwy o ddefnydd o Ddadansoddeg Data yn ein gwaith. Mae ein dogfen gefnogi yn nodi'r ffordd rydym wedi trosglwyddo'r gwaith hwn i fod yn 'fusnes yn ôl yr arfer', a'r ffordd rydym wedi sefydlu Rhaglen Newid ffurfiol i yrru ymlaen y gwelliannau a'r effeithlonrwydd pellach yn y ffordd rydym yn gweithio.

Mae ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynyddol yn nodi ein cofnod o lwyddiant am y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Mawrth eleni cyflwynwyd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21 i'r Senedd. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau i ddod yn 2021-22, ac wedyn caiff ein Cynllun Blynyddol am y flwyddyn hon ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Mawrth 2021.

Edrychwn ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif gyda Phwyllgor Cyllid y Senedd.



Lindsay Foyster

Cadeirydd Swyddfa
Archwilio Cymru



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru



Cwmpas y Gyllideb 2021-22

Amcangyfrif o ofynion cyllideb Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022

- 1 Dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, rhaid i Weinidogion gyflwyno cynnig yn y Senedd i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o'r gronfa WCF ar gyfer personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.
- 2 Mewn cysylltiad â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi:
 - swm yr adnoddau y gellir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol gan Swyddfa Archwilio Cymru (yn unol â'r gyllideb am y flwyddyn);
 - swm yr adnoddau yn cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol ac y gellir ei gadw yn hytrach na'i dalu i'r gronfa WCF; a
 - y swm y gellir ei dalu allan o WCF i Swyddfa Archwilio Cymru.
- 3 Mae crynodeb o'r gofynion hyn, na allant fod yn ddim ond amcangyfrifon oherwydd amrywioldeb y ffrydiau incwm, i'w weld yn **Eitem 1**.
- 4 Mae manylion wedi eu nodi yn ein gwybodaeth gefnogi am y ffordd y bwriadwn ddefnyddio'r arian hwn i ddarparu archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn 2021-22.

Eitem 1: crynodeb o'r amcangyfrif o ofynion cyllideb 2021-22

£'000

Adnoddau, ar wahân i adnoddau cronrus, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:

- Refeniw 7,798
- Cyfalaf 350

Adnoddau cronrus o ffioedd a thaliadau am archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill yn gysylltiedig â swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol, ac adennill costau a dynnir ar gyfer trydydd parti - i gyd i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig â gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

14,461

Gofynion arian parod net o'r gronfa WCF ar gyfer symiau net sydd i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.

8,368

- 5 Mae **Eitem 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofynion arian parod net am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022.

Eitem 2: cysoni gofynion adnoddau â gofynion codi arian parod o'r gronfa WCF

£'000

Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf

8,148

Cymhwysiad heblaw arian parod – gostyngiad gwerth

(280)

Cymhwysiad heblaw arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gweithio

500

Gofyniad arian parod net o'r gronfa WCF i dalu'r symiau net sydd i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru

8,368



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru



Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022

Hydref 2020

Cynnwys

Gwerth yr arian yn Archwilio Cymru	3
Cost archwilio cyhoeddus yng Nghymru	3
Ein Fframwaith Gwerth am Arian (VfM)	4
Newidiadau yn ein galw ar Gronfa Gyfunol Cymru (WCF) 2020-21 i 2021-22	7
Ariannu Refeniw a chyfalaf 2021-22	7
Ariannu refeniw ar gyfer Archwilio Cymru	8
Buddsoddi cyfalaf yn Archwilio Cymru	12
Incwm o ffioedd 2021-22	14
Newidiadau posibl yn y gyllideb hon	15
Atodiad	16
1. Cyllideb ar gyfer 2021-22	17




Gwerth am arian yn Archwilio Cymru

Cost archwilio cyhoeddus yng Nghymru

- 1 Ers sefydlu ein Bwrdd yn 2013-14, rydym wedi gostwng cost archwilio cyhoeddus yng Nghymru 14% mewn termau real¹. Dangosir hyn fel **Eitem 1**. Mae cyfanswm yr arbedion a gynhyrchwyd dros y blynyddoedd hynny bron yn £21m.
- 2 Rydym wedi sicrhau'r gostyngiad hwn mewn gwariant er inni ymgymryd ag archwiliadau newydd megis Awdurdod Refeniw Cymru a dosbarthu adnoddau ychwanegol i feysydd gwariant newydd yn ystod y cyfnod, megis Astudiaeth Ymchwilio Twf yn ein gwaith Cyfnewid Arfer Da, a'n buddsoddiad mewn cynllun hyfforddiant i raddedigion.

Eitem 1: cost archwilio cyhoeddus 2013-14 i 2021-22



- 3 Mae ein Hamcangyfrif am 2021-22 yn ei gwneud yn ofynnol inni wneud arbedion ychwanegol yn y flwyddyn o £400,000 i fantoli'r gyllideb ynghyd ag arbedion o £900,000 o drosiant staff. Rydym yn nodi isod y fframwaith a ddefnyddiwn i sicrhau'r arbedion hyn.

1 Yn seiliedig ar ddadchwyddyddion cynnyrch domestig gros a gyhoeddwyd gan y SYG, Mehefin 2020.


Ein Fframwaith Gwerth am Arian (VfM)

Clyfrach, Mwy Darbodus, Gwell

Ein pobl

- 4 Ein pobl yn Archwilio Cymru yw ein buddsoddiad pennaf ac mae costau staff bron yn 80% o'n gwariant arfaethedig yn 2021-22.
- 5 Mae Strategaeth Gweithlu Archwilio Cymru yn nodi sut y bwriadwn wneud Archwilio Cymru yn lle gwych i'n staff weithio, ac mae'n ein helpu i sicrhau ein bod yn cael y gwerth mwyaf am arian o'n hadnoddau staff.
- 6 Er 2013-14 rydym wedi newid siâp ein gweithlu - lleihau nifer y Cyfarwyddwyr a'r rheolwyr a chynyddu'n sylweddol nifer y graddedigion dan hyfforddiant a'r prentisiaid sy'n darparu ein gwaith archwilio, ac ar yr un pryd yn gwella'i ansawdd a'i effaith. Mae'r newidiadau hyn wedi sicrhau arbedion blynyddol tebyg-am-debyg o fwy nag £1 filiwn.

Eitem 2: Ein gweithlu 2013-14 to 2021-22



- 13 Yn ystod 2021-22 byddwn yn defnyddio system ar sail Rhannu Pwyntiau ar gyfer adroddiadau archwilio yn lle ein System Rheoli Archwiliadau Ariannol. Bydd hyn yn cyd-fynd yn well â'r offeryn a ddefnyddir ar gyfer ein gwaith Archwilio Perfformiad gan ganiatáu inni symud yn nes at lwyfan archwilio cyffredin. Mae hyn yn cael ei ddatblygu i ymateb i brinder systemau addas ar y farchnad, a bydd yn rhoi inni system gadarn sy'n bodloni ein hanghenion adrodd yn llawn, yn ogystal â chefnogi cydweithio mwy effeithiol rhwng timau archwilio.

Ein trefn gaffael

- 14 Mae caffael sy'n effeithiol o ran cost yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithio yn Archwilio Cymru.
- 15 Yn ystod 2020-21 byddwn wedi cwblhau'r broses o drosglwyddo gwaith a wnaed gynt gan gwmnïau yn y sector preifat i wneud yr holl waith archwilio gennym yn fewnol.
- 16 Mae'r newid hwn wedi caniatáu inni elwa o arbedion effeithlonrwydd maint sylweddol, ac mae hefyd wedi caniatáu inni:
- wella cysondeb ansawdd o gwmpas ein gwaith archwilio;
 - gwella darpariaeth Gymraeg i'n cyrff sy'n cael eu harchwilio; a
 - darparu gwell cyfleoedd datblygu i'n staff gyda mwy o amrywiaeth archwiliadau i weithio arnyn nhw.
- 17 Rydyn ni'n parhau i adnewyddu darpariaeth gwasanaeth cefnogi i sicrhau ei fod yn rhoi gwerth yr arian, ac yn penderfynu a yw gwasanaethau yn cael eu darparu orau yn fewnol neu gan ffynonellau allanol. Rydym eisoes yn arbed £75,000 y flwyddyn drwy drefnu gwneud archwiliadau cyflogres ac archwilio mewnol gan ffynonellau allanol. Byddwn yn arolygu ein darpariaeth cyflogres ymhellach yn 2021-22 i benderfynu ai hyn yw'r ateb mwyaf effeithiol o ran cost o hyd.





Newidiadau yn ein galw ar WCF 2020-21 i 2021-22

Ariannu Refeniw a chyfalaf 2021-22

- 18 Gyda'r Amcangyfrif hwn byddwn yn gostwng ein galw ar ariannu refeniw WCF yn 2021-22 £120,000 (1.5%) yn ogystal â'r gostyngiad bob dwy flynedd mewn cyllid ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) fel sydd wedi'i nodi yn **Eitem 3**. Mewn termau real mae hyn yn ostyngiad o 4.3% yn yr ariannu refeniw y gofynnir i WCF amdano. Mae manylion pellach wedi'u nodi ym **mharagraffau 20 i 46**.
- 19 Caiff yr holl fuddsoddi cyfalaf ei ariannu gan yr WCF drwy'r Amcangyfrif hwn. Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021-22 yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2020-21. Mae manylion pellach wedi'u nodi ym **mharagraffau 47 i 58**.

Eitem 3: Newidiadau yn ein galw ar WCF 2020-21 i 2021-22

	Refeniw £'000	Cyfalaf £'000	Cyfanswm £'000
2020-21	7,998	230	8,228
Cyllid Cylchol NFI	(80)	-	(80)
Amcangyfrif Gwaelodlin 2020-21	7,918	230	8,148
Newidiadau ar gyfer 2021-22			
Rhaglen gyfalaf	-	120	120
Prosiect Cau Cynnar	(120)	-	(120)
Cyfanswm Ariannu WCF 2020-21	7,798	350	8,148
Newid o'r waelodlin	(120)	120	-

Ariannu refeniw ar gyfer Archwilio Cymru

- 20 Telir tua 35% o gostau rhedeg Archwilio Cymru gan yr WCF, a'r gweddill o'r ffioedd a godir am ein gwaith archwilio.
- 21 Mae ein Hamcangyfrif yn nodi ein gofynion am gyllid gan WCF a ffioedd yn 2021-22 ar sail disgwyliadau'r gwaith sy'n ofynnol i fodloni ymrwymadau ein Cynllun Blynyddol.
- 22 Mae dadansoddiad manwl o'n cyllideb wedi'i nodi yn **Atodiad 1**.

Gwaith archwilio sy'n cael ei ariannu heblaw drwy ffioedd: £3.716m



- 23 Gweithredir rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau cenedlaethol gwerth am arian er mwyn darparu cefnogaeth i waith craffu'r Senedd. Rhoir adroddiad am yr astudiaethau hyn i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) y Senedd a chânt eu disgrifio yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21 ac Adroddiad Dros Dro 2020-21.
- 24 Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw un o'r prif fecanweithiau i'r Senedd alw i gyfrif y cyrff y mae'n eu hariannu'n uniongyrchol neu drwy Lywodraeth Cymru. Felly, anelwn at sicrhau bod y Pwyllgor yn cael ei gefnogi'n dda gennym yn ei waith.
- 25 Roedd ein Hamcangyfrif am 2020-21 yn cynnwys darpariaeth i drosglwyddo £180,000 o adnoddau archwilio o ffioedd i ariannu WCF er mwyn inni gryfhau ein cefnogaeth i graffu drwy ymgymryd â darnau blynyddol o waith i ymchwilio i themâu sy'n deillio o'n gwaith cyfrifon. Rydym yn defnyddio'r adnodd hwn yn 2020-21:
 - i gynhyrchu ffeithluniau ar y we a chyflwyno data allweddol yn deillio o gyfrifon crynodeb y GIG, cyfrifon llywodraeth leol a chyfrifon Llywodraeth Cymru; ac
 - ar gyfer sylwebaeth ychwanegol ar gyfer PAC ar gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Cyfraniad at gostau rhedeg: £2.614m



- 26 Defnyddir cyllid gan yr WCF i dalu costau Archwilio Cymru nad ydynt yn cael eu trosglwyddo drwy ffioedd i gyrff a archwilir. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - cyfraniad at gostau cefnogaeth dechnegol, sicrwydd ansawdd a chydymffurfio, elfennau hanfodol wrth sicrhau archwiliad cyhoeddus cadarn;

- cyfraniad at gyfanswm ein costau teithio. Disgwyliwn i'r rheiny ailgychwyn er i raddau llai na'r sefyllfa cyn COVID-19, gan sicrhau na fydd cyrff sy'n cael eu harchwilio dan anfantais oherwydd eu lleoliad daearyddol;
 - buddsoddi mewn dysgu a datblygu staff;
 - costau llywodraethiant, fel ar gyfer y Bwrdd, costau cefnogi cysylltiedig ag agweddau eraill ar sicrhau cydymffurfio â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
 - o 2019-20 costau cynyddol yn gysylltiedig ag arolwg actiwaraid o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.
- 27 Yn ogystal, ar gyfer 2021-22 rydym yn cynyddu'r elfen hon yn ein hariannu i ganiatáu ar gyfer cyfraniad at ddau brosiect sydd wedi eu trosglwyddo i fusnes yn ôl yr arfer, fel y disgrifir isod.

Dadansoddeg data

- 28 Ym mis Mehefin 2020, ystyriodd ein Bwrdd achos busnes i ddarparu cyllid parhaus ar gyfer swyddogaeth dadansoddeg data. Roedd costau hyn gynt yn cael eu talu'n bennaf drwy gyllid gan yr WCF.
- 29 Cytunodd y Bwrdd y byddai'r tîm hwn, o fis Ebrill 2021 ymlaen, yn dod yn rhan o fusnes craidd Archwilio Cymru a'r costau'n cael eu talu gan gyfuniad o ffioedd a chan WCF, lle mae ei waith yn cefnogi gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan WCG.



Seiberddiogelwch

- 30 Roedd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2020-21 yn cynnwys cyllideb o £80,000 ar gyfer gwella seiberddiogelwch oherwydd y perygl cynyddol o gael ymosodiad seiber. Mae'r perygl yn dal yn uchel, ac felly rydym yn gofyn am i'r cyllid hwn gael ei gynnwys yn y cyfraniad parhaus at ein costau rhedeg.



Ariannu er lles y sector cyhoeddus ehangach: £1.230m



- 31 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae Archwilio Cymru yn gofyn am gyllid ar gyfer mentrau wedi eu llunio er lles y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, a'r gost yn cael ei thalu'n uniongyrchol gan WCF yn hytrach na thrwy godi tâl ar gyrff cyhoeddus eraill.
- 32 Mae manylion y prosiectau hyn i'w gweld isod.

Datblygu sgiliau ariannol Cymru Gyfan

- 33 Darperir cyllid gan WCF i roi cefnogaeth barhaus i'n rhaglen lwyddiannus i sicrhau cyfleoedd graddedigion a phrentisiaid i fyfyrwyr o bob rhan o Gymru.
- 34 Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi tua 60 o hyfforddeion a phrentisiaid gradd, gan roi iddynt gyfleoedd hyfforddiant o safon fyd-eang a sicrhau cyflenwad o weithwyr cyllid proffesiynol yn y dyfodol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.
- 35 Rydym yn defnyddio arian WCF:
 - i ddarparu cyfleoedd secondio i'r rhai sy'n cael hyfforddiant gradd gyda chyrrff eraill yn sector cyhoeddus Cymru;
 - i dargedu ein recriwtio i wella amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol yn ein gweithlu ac yn y proffesiwn cyllid ehangach yng Nghymru; ac
 - i gynnal ein costau hyfforddiant ar gyfer ein rhaglen hyfforddiant gradd, gan leihau costau a fyddai fel arall yn dod o'r ffioedd.

Cyfnwid arfer da

- 36 Rydym yn defnyddio arian a ddarperir gan WCF i redeg ein rhaglen Arfer Da sy'n cael ei pharchu'n fawr. Mae ar gael am ddim i gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector ledled Cymru.
- 37 I ymateb i'r pandemig COVID-19 rydym wedi targedu adnoddau oddi ar redeg digwyddiadau rhannu dysgu ar y safle i rannu canlyniadau o'n prosiect dysgu amser real sydd newydd ei sefydlu. Mae hwn yn cipio arfer da cyrrff cyhoeddus wrth ymateb i'r pandemig. Caiff hwn ei rannu drwy ein gwefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhannu ein gwaith mor eang â phosibl.
- 38 Rydym yn dal i ddarparu adnoddau ar-lein, hwyluso a dysgu drwy weminarau, tra bo ein digwyddiadau ar y safle wedi eu gohirio.

Menter Twyll Genedlaethol

- 39 Er 2015 mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cefnogi egwyddor cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol NFI gan yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru heb ddim cost i'r gyrff hynny. Roedd ein hadroddiad dwy-flynedd diwethaf yn nodi arbedion posibl a gordaliadau o £8m ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu arbedion cronol i £42.9m er 1996 – elw sylweddol am y buddsoddiad.
- 40 Mae Swyddfa Cabinet y Deyrnas Gyfunol wedi cyflwyno tâl blynyddol o £1,200 ar bob corff sy'n cymryd rhan ac mae hyn wedi cynyddu ein costau blynyddol i £100,000 ac i £230,000 bob yn ail flwyddyn.
- 41 Heb yr ariannu hwn, byddai angen trosglwyddo costau gwneud y gwaith hwn yn uniongyrchol i gyrff sy'n cymryd rhan fel ffioedd ychwanegol. Gallai hyn olygu lleihad sylweddol yn nifer y gyrff sy'n dewis cymryd rhan.

Ein rhaglen newid: £238,000



- 42 Er 2016 mae Archwilio Cymru wedi ymgymryd â nifer o brosiectau trawsnewid llwyddiannus sydd wedi eu hariannu gan WCF.
- 43 Erbyn hyn mae nifer o'r prosiectau hyn, gan gynnwys y ffordd rydym yn defnyddio dadansoddeg data a gwell seiberddiogelwch, wedi eu sefydlu fel 'busnes yn ôl yr arfer', fel y trafodwyd yn gynharach.
- 44 Bydd ein prosiect i weithio gyda chyrrff Llywodraeth Leol i weithredu gofynion ar gyfer cau eu cyfrifon yn gynnar yn cael ei gwblhau yn 2020-21, ac wedyn yn 2021-22 ni fydd angen y cyllid o £120,000 sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn.
- 45 Rydym yn ddiweddar wedi newid y ffordd rydym yn rheoli newid trawsfurfiadol, gyda Rhaglen Newid gydlynol yn cael ei goruchwyllo gan y tîm uwch yn gweithredu fel Bwrdd Rhaglen Newid gyda chyfrifoldeb dros ddyrannu adnoddau i brosiectau wedi eu cymeradwyo. Mae hyn yn cryfhau ein trefniadau llywodraethiant gan ddarparu llwybr clir ar gyfer blaenoriaethu a chymeradwyo newid wedi'i alinio yn ôl ein huchelgais strategol. Mae trosolwg parhaus yn rhoi sicrwydd darparu ac yn galluogi ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod mentrau'n cyflawni'r amcanion a fwriadant yn gyflym.
- 46 Dyma rai o'r prosiectau a nodwyd fel prif flaenoriaethau ar gyfer yr ariannu hwn yn 2021-22:
- **Gweithleoedd y Dyfodol:** prosiect i ystyried anghenion swyddfa yn y byd ar ôl COVID-19 gyda'r nod o leihau costau llety a theithio pan fydd prydlesau swyddfeydd yn dod i ben yn y blynyddoedd nesaf.

- **Archwilio Cyfrifon 2022:** prosiect i adolygu'n sylfaenol ein hagwedd at waith archwilio i sicrhau bod gennym y dechnoleg briodol a'n bod yn gallu bodloni gofynion ansawdd archwilio llym.
- **Ein Strategaeth Ddigidol:** prosiect i sicrhau bod Archwilio Cymru yn parhau i wneud y mwyaf o fuddiannau technegol newydd er mwyn cyflawni ein huchelgais o fod yn batrwm o sefydliad.

Buddsoddi cyfalaf yn Archwilio Cymru

- 47 Mae ein blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf am 2020-21 i 2024-25 wedi eu nodi yn **Eitem 4**.
- 48 Mae buddsoddi cyfalaf yn targedu prosiectau a fydd yn darparu effeithlonrwydd ac arbedion yn y dyfodol; gan sicrhau bod ein darpariaeth TGCh yn gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael a bod ein gweithleoedd yn bodloni ein gofynion sy'n newid yn y byd ar ôl COVID-19.

Eitem 4: buddsoddi cyfalaf 2020-21 i 2024-25

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rhaglen newid	110	200	650	400	400
Strategaeth TGCh	120	150	150	150	150
Cyfanswm	230	350	800	550	550

Ein rhaglen Newid

- 49 Fel y nodwyd uchod, rydym wedi sefydlu rhaglen newid sy'n cael ei rheoli'n strategol o fewn Archwilio Cymru i roi rheolaeth effeithiol dros brosiectau newid sydd i ddod. Bydd angen buddsoddiad cyfalaf ar rai o'r rhain, fel y nodir isod.

Gweithleoedd y dyfodol

- 50 Erbyn 2023 bydd hi'n bryd adnewyddu'r prydlesau ar dair o'n swyddfeydd yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele neu byddant yn dod i ben. Mae ein rhaglen gyfalaf yn darparu awgrym cynnar o'r costau bras yn gysylltiedig â symud posibl, ac fel y cytunwyd gyda'r Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2019 byddwn yn dal i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'n gwaith fynd yn ei flaen ac wrth inni allu cadarnhau costau.

- 51 Mae gofyniad hefyd o ran costau yn bosibl am adnodd ychwanegol heblaw arian i ganiatáu ar gyfer effaith Safon Adroddiad Ariannol Rhyngwladol 16 (IFRS 16) ar unrhyw ymrwymïadau prydlesu newydd. Ar hyn o bryd ni ellir amcangyfrif hyn.
- 52 Mae'n anodd amcangyfrif costau ar hyn o bryd, ond disgwylir y bydd newidiadau yn y ffordd y byddwn yn gweithio mewn byd ar ôl COVID-19 yn dod ag arbedion sylweddol mewn costau llety, a bydd angen buddsoddiad ymlaen llaw ar ei gyfer yn 2022-23 fel y gwelir yn **Eitem 4**.
- 53 Mae'r Bwrdd wedi gosod targed arbedion blynyddol o £200,000 o leiaf o'r buddsoddiad hwn. Ar sail amcangyfrifon cychwynnol, golyga hyn y byddem yn disgwyl gweld hyn yn cael ei dalu'n ôl ymhen pum mlynedd. Caiff rhagor o fanylion am ein cynigion buddsoddi eu darparu yn ein Hamcangyfrif am 2022-23.

Archwiliad Cyfrifon 2022

- 54 Fel y trafodwyd uchod, rydym yn datblygu darpariaeth yn lle ein llwyfan archwilio cyfredol pan ddaw'r contract i ben yn 2022. Mae arfarniad cychwynnol o'r dewis wedi argymhell ateb mewnol, o gofio mai nifer fach o systemau sydd ar gael ar y farchnad, a datblygu hwnnw ar sail SharePoint.
- 55 Mae patrwm yn cael ei ddatblygu gyda'r bwriad y bydd y system newydd hon ar gael i'w defnyddio erbyn mis Hydref 2022

Systemau corfforaethol eraill

- 56 Bydd y rhaglen Newid hefyd yn cynnwys nifer o brosiectau yn yr arfaeth yn targedu effeithlonrwydd. Bydd angen buddsoddi cyfalaf ar y rhain hefyd yn y blynyddoedd i ddod ac yn eu plith mae:
 - gwella ymhellach ein system rheoli Archwilio Perfformiad;
 - ateb o ran adnoddau a chofnodi amser i sicrhau ein bod yn gallu paru'n well yr adnoddau staff sydd ar gael â'r galw amdanynt; ac
 - ail-gaffael darpariaeth cyflogres i integreiddio'n well â'n system AD.

Ein Strategaeth TGCh

- 57 Rydym wedi sefydlu rhaglen dreiglo o adnewyddu cyfarpar CP/TG i sicrhau parhad busnes a bod cyfarpar yn dal yn addas at y diben ac yn ddibynadwy. Rydym wedi cynyddu'r dyraniad ar gyfer y flaenoriaeth hon o 2021-22 i sicrhau ein bod yn gallu gwneud y defnydd gorau o welliannau mewn technoleg i gefnogi ein huchelgais yn y strategaeth ddigidol.
- 58 Mae angen hefyd inni fuddsoddi mewn cyfarpar a fydd yn caniatáu i fwy o'n staff weithio o bell yn y byd ar ôl COVID-19. Mae'r buddsoddi hwn yn cael ei gysylltu'n agos â'r prosiect Gweithleoedd y Dyfodol.



Incwm o ffioedd 2021-22

Cynllun ffioedd 2021-22

Mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi cynnwys drafft o gynllun ffioedd fel Atodiad i'n Hamcangyfrif i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid. Mae'r gofyniad cyfreithiol i ymgynghori ar ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol cyn cynnwys y rhain yn y Cynllun Ffioedd, ynghyd â chanlyniadau'r pandemig COVID-19, yn golygu nad yw'r amseru wedi caniatáu i hyn gael ei gynnwys ar gyfer 2021-22

Yn hytrach, byddwn yn ymgynghori'n eang am y ffioedd a gynigiwn pan fydd yr Amcangyfrif hwn wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid, ac yna byddwn yn cyflwyno'n Cynllun Ffioedd i'r Pwyllgor Cyllid ei ystyried ddechrau 2021.

Drafft o gyfraddau ffioedd 2021-22

Mae'r ffioedd a godwn yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys faint o arian a gawn o WCF.

Yn amodol ar gymeradwyo ein Hamcangyfrif am 2021-22, ar hyn o bryd nid ydym yn disgwyl dim cynnydd yn ein cyfraddau ffioedd am y flwyddyn honno. Byddwn yn llyncu unrhyw godiadau cyflog a phrisiau drwy wella cynhyrchiant staff wrth inni gyfyngu teithio drwy fwy o weithio o bell.

Ein hincwm o ffioedd 2021-22

Mae ein Hamcangyfrif am 2021-22 yn dangos cynnydd yn yr incwm o ffioedd o £457,000 o'i gymharu â 2020-21. Er nad oes dim cynlluniau ar gyfer codiadau tebyg-am-debyg mewn ffioedd i gyrrff sy'n cael eu harchwilio, mae hyn yn adlewyrchu codiadau disgwylidig ym maint y gwaith archwilio y bydd angen inni ei wneud yn y flwyddyn honno gan gyrrff newydd a gaiff eu harchwilio a gwaith ychwanegol sy'n deillio yn gysylltiedig â gwariant COVID-19 ychwanegol yn 2020-21.



Newidiadau posibl yn y gyllideb hon

Chwyddiant cyflogau a phrisiau

Yn unol â'r arweiniad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, bach iawn o ddarpariaeth rydym wedi ei gwneud ar gyfer codiadau cyflog a phrisiau yn 2021-22.

Os digwydd bod pwysau chwyddiant lawer yn fwy na darogan Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb, yna efallai na fydd y sefyllfa hon yn gynaliadwy o ran ein gallu i ddenu a chadw staff, ac efallai y byddai angen inni edrych eto ar hyn gyda'r Pwyllgor Cyllid.

Ein hincwm o ffioedd

Mae ein hamcangyfrif yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn ein hincwm cyffredinol o ffioedd yn 2021-22 yn unol â'r disgwyliadau y bydd angen inni wneud gwaith archwilio ychwanegol yn gysylltiedig ag arian a ddarperir ar gyfer yr argyfwng COVID-19 yn ogystal ag archwilio cyrff newydd sydd i gael eu sefydlu yn 2021.

Ar hyn o bryd mae cryn ansicrwydd yn ein hamcangyfrifon ar gyfer y gwaith ychwanegol hwn. Os na ellir rheoli maint y gwaith hwn o fewn y Gyllideb arfaethedig, bydd angen inni fynd yn ôl at y Pwyllgor Cyllid i addasu faint o adnoddau cronus y gallwn eu defnyddio.

Safonau adrodd newydd

Mae IFRS 16 ar gyfrifo prydlesau yn cael ei gyflwyno o 2020-21 ymlaen.

Nid yw effaith cyfrifo ar gyfer gostyngiad gwerth a llog yn gysylltiedig â chyfalafu prydlesau sydd eisoes yn bod, o'i gymharu â chostau rhedeg blynyddol y prydlesau hynny, yn fawr iawn i Archwilio Cymru oherwydd yr amser byr sydd ar ôl ar ein prydlesau eiddo. Felly, nid oes angen dim addasu yn ein cyllideb ar gyfer y newid hwn yn 2021-22.

Gall fod newid yn ein gofyniad gwariant cyfalaf yn 2022-23 fel y gwelir yn **Eitem 4** os lluniwn drefniant prydles newydd. Nid yw'n bosibl amcangyfrif effaith hyn ar hyn o bryd.



Atodiad 1

Cyllideb 2021-22

Cyllideb 2021-22

	Amcangyfrif 2021-22 £'000	Amcangyfrif 2020-21 £'000	Cynnydd/ (Gostyngiad) £'000	
Gwariant	Costau staff	18,214	17,245	969
	Rheoli swyddi gwag	(911)	(866)	(45)
	Staff ar gontract byr	311	311	-
	Lwfans teithio	746	712	34
	Teithio a chynhaliaeth	257	493	(236)
	Llety	964	940	24
	Cwmnïau'r sector preifat	-	598	(598)
	TAW na ellir ei adennill	500	500	-
	TGCh	602	546	56
	Llywodraethiant Archwilio Cymru	295	300	(5)
	Hyfforddiant allanol	278	289	(11)
	Cyfieithu	120	145	(25)
	Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	222	180	42
	Dibrisiant	280	280	-
	Cyflenwadau a gwasanaethau eraill	731	675	56
	Targed arbedion	(400)	(476)	76
	CYFANSWM	22,209	21,872	337
	Costau NFI Cylchol	50	130	(80)
	Cyfanswm treuliau	22,259	22,002	257
Incwm	Ffioedd Archwilio	13,021	12,375	646
	Archwiliad Cronfeydd Amaethyddol yr UE	650	759	(109)
	Ffioedd ardystio grantiau	790	870	(80)
	CYFANSWM INCWM	14,461	14,004	457
Cyfanswm i'w ariannu gan WCF	7,798	7,998	(200)	



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Adroddiad Interim

Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun
Blynyddol ar gyfer 2020-21 yn ystod y cyfnod
rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020

Hydref 2020

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020. Fe'i paratowyd ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad o'r graddau y cyflawnwyd y canlynol:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson â'r Cynllun Blyneddol a baratowyd ar gyfer 2020-21;
- mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun; ac
- mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni ein targedau ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol.

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol cyfun am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ac sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

Os bydd angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os bydd gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500
E-bost post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru
Twitter @WalesAudit

This document is available in English.

Cynnwys

Rhagair 4

Cyflawni gwaith archwilio 7

Mae gwaith archwilio ar y safle yn dal i gael ei atal, ond rydym yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni ein rhaglen lawn o waith archwilio cyfrifon. Rydym wedi addasu ein rhaglenni gwaith gwerth am arian lleol a cenedlaethol yn briodol, ochr yn ochr â chyflwyno rhaglen dysgu COVID newydd

Rhedeg y busnes 18

Rydym wedi monitro'r sefyllfa COVID-19 sy'n symud yn gyflym ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i gefnogi ein staff i weithio o bell drwy ddefnyddio ein hegwyddor am y chwe mis diwethaf: 'hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno'

Dangosyddion perfformiad allweddol 25

Yr ydym wedi cyflawni neu'n agos at gyrraedd ein targedau ar gyfer y rhan fwyaf o'n 18 dangosydd perfformiad allweddol

Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol 29

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 30

3 Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol 32

Rhagair

Mae ein Cynllun Blynyddol, a gyhoeddwyd ar ddiwedd mis Mawrth, yn nodi'r camau roeddem yn bwriadu eu cymryd yn 2020-21 tuag at gyflawni ein huchelgeisiau sefydliadol a'n hamcanion strategol.

Fodd bynnag, ychydig cyn ei gyhoeddi, bu'n rhaid i ni ymateb i amgylchiadau eithriadol pandemig COVID-19. Fel pawb arall, newidiwyd ein blaenoriaethau pennaf wrth i ni ganolbwyntio ar lesiant ein cyflogeion, sicrhau parhad busnes a chefnogi'r sector cyhoeddus a'r gymuned ehangach.

Rhoddais wybod yn ddi-oed i'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym y byddem yn mabwysiadu dulliau gweithredu amgen ac yn rhoi ffocws newydd i lawer o'n gwaith er mwyn sicrhau nad oedd yn ychwanegu at y pwysau a oedd yn wynebu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, roeddwn hefyd yn ymwybodol iawn bod Archwilio Cymru yn meddu ar yr arbenigedd hanfodol i helpu Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach i ymateb i rai o'r heriau a wynebwn.

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn rhoi crynodeb o'r addasiadau a wnaed gennym i'r rhaglenni gwaith gwreiddiol a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol mewn ymateb i sefyllfa COVID-19, a'r cynnydd a wnaed gennym dros y chwe mis diwethaf o ran cyflawni'r cynlluniau diwygiedig hynny. Yn gryno:

- ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, rhoddwyd y gorau i weithio ar y safle mewn cyrff a archwilir a chaewyd ein swyddfeydd ein hunain.
- ers hynny, mae ein holl staff wedi gweithio gartref, ac wedi cael y TG angenrheidiol a chymorth o ran cyfarpar swyddfa gartref.
- golygai hyn newid enfawr yn ein model gweithredol wrth i ni ymgysylltu â'r cyrff a archwilir gennym a chyflawni ein gwaith o bell.
- aethom ati'n ddi-oed mewn partneriaeth â'r cyrff a archwilir gennym i bennu ffyrdd newydd o weithio er mwyn cyflawni ein holl waith archwilio, er enghaifft drwy gael mynediad o bell at systemau ariannol neu ddatblygu trefniadau rhannu ffeiliau electronig. Er bod hyn wedi cymryd mwy o amser ar y cyfan, rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau statudol o ran archwilio cyfrifon ac wedi llunio arferion a fydd yn fuddiol i ni yn y dyfodol.

- rydym wedi ail-lunio ein rhaglenni o astudiaethau gwerth am arian, yn genedlaethol ac mewn cyrff unigol a archwilir, er mwyn cydnabod a chefnogi ymateb y sector cyhoeddus i'r pandemig. Roedd hyn yn golygu gohirio neu gwtogi ar waith â blaenoriaeth is a cheisio osgoi effaith andwyol ar yr ymateb rheng flaen i COVID-19, a pharhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol ar yr un pryd.
- rydym wedi sefydlu ein Prosiect Dysgu am COVID, gan ddefnyddio ein rhwydwaith sefydledig o gysylltiadau ym mhob rhan o'r gwasaneth cyhoeddus i gasglu enghreifftiau o arferion da newydd ac arloesol, a'u cyfleu mewn amser real fwy neu lai.
- rydym wedi paratoi i'r staff ddychwelyd yn ddiogel i'n swyddfeydd pan fydd hynny'n briodol o dan reoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- llesiant y staff fu ein blaenoriaeth drwy'r cyfan, sydd wedi canolbwyntio ar ddull gweithredu 'hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno'. Aethom ati'n gyflym i ddatblygu sianeli cyfathrebu er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn dal wedi'u cysylltu, gan gynnal arolygon pŷls rheolaidd o'r staff a rhannu adborth er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn cael lleisio barn, newid ein darpariaeth dysgu a datblygu i ddarpariaeth ar-lein, a rhoi amrywiaeth eang o drefniadau cymorth ar waith a chefnogi cydweithwyr nad oeddent yn gallu gweithio yn ôl yr arfer am ba reswm bynnag.

Mae'r egwyddor honno: hunan, teulu, gwaith yn y drefn honno, wedi llunio ein hymateb sefydliadol dros y chwe mis diwethaf. Mae fy nyled yn fawr i holl staff Archwilio Cymru am eu proffesiynoldeb, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus drwy'r cyfnod heriol hwn.

Hoffwn hefyd ddiolch i Isobel Everett y daw ei rôl ei ben ym mis Hydref ar ôl saith mlynedd fel Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r sefydliad a ddisgrifir yn yr Adroddiad Interim hwn, a'r ffordd y mae wedi ymateb i'r tarfu digynsail a welwyd yn ystod y chwe mis diwethaf, yn dyst i'r arweinyddiaeth a roddwyd ganddi. Edrychaf ymlaen at weithio'n agos â'n Cadeirydd newydd, Lindsay Foyster, wrth i ni adeiladu ar y sylfaen honno i ddatblygu'r sefydliad ymhellach.



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Hwn yw'r adroddiad ffurfiol olaf y byddaf yn ei osod ar ran y Bwrdd. Yn ei ragair, mae Adrian wedi disgrifio'r camau dewr ond gofalar y mae'r sefydliad wedi eu cymryd dros y chwe mis diwethaf, i gefnogi ein staf a sicrhau bod uchelgeisiau Archwilio Cymru yn cael eu cyflawni hyd y gellir. Mae cadernid yr holl staff a'r arweinyddiaeth a ddangoswyd drwy gydol y cyfnod hwn yn amlwg yn yr allbynnau a'r canlyniadau a amlinellwn yn yr Adroddiad Interim hwn.

Yn ogystal â'r Bwrdd, hoffwn innau hefyd ddiolch am ymdrechion pawb, yn broffesiynol ac yn bersonol, sydd wedi ein helpu i fod yn y sefyllfa hon. Gwn, er bod y sefydliad yn wynebu rhagor o ansicrwydd o ganlyniad i COVID-19, ei fod yn barod i elwa ar y rhinweddau sydd wedi ein helpu i gyrraedd y sefyllfa hon.



Isobel Everett

Cadeirydd Swyddfa
Archwilio Cymru

Cyflawni gwaith archwilio

Gwaith craidd



Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrrff cyhoeddus




Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**



Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£2.5 biliwn**



Cymeradwyo tua **£1 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis



Cefnogi gwaith craffu effeithiol gan gynnwys gwaith Pwyllgorau'r Senedd



Rhannu'r **arferion da** a welwn mewn **gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru**



Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll** a gwall drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

Gwaith archwilio lleol

- 1 Yn sgil y tarfu anochel ar ein rhaglenni gwaith yn ystod camau cynnar pandemig COVID-19, mae gwaith archwilio ar y safle wedi'i atal dros dro o hyd, ond rydym wedi parhau i weithio gyda'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym a chysylltu o bell â nhw, yn bennaf drwy ddefnyddio technoleg a llwyfannau cyfathrebu fideo.

- 2 Mae ein gwaith archwilio ariannol yn hollbwysig o ran rhoi asesiad annibynnol parhaus o drefniadau rheoli a chadernid ariannol ledled y sector cyhoeddus i'r Senedd, cyrff a archwilir a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Mae'n dda gennym nodi ein bod ar y trywydd cywir i gyflawni ein rhaglen lawn o waith archwilio cyfrifon ar gyfer 2019-20, ond dros gyfnod mwy estynedig.
- 3 Cwblhawyd pob un o'n harchwiliadau o gyfrifon y GIG ar gyfer 2019-20 a rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn arnynt erbyn 2 Gorffennaf. Cwblhawyd llawer o'n harchwiliadau o gyfrifon llywodraeth leol a chanolog ar gyfer 2019-20, a rhoddwyd barn arnynt, erbyn diwedd mis Medi 2020. Caiff y lleill eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref, pan fydd y cylch archwilio nesaf (2020-21) yn dechrau.
- 4 Wynebwyd sawl her wrth i ni gyflawni'r gwaith hwn, nid yn unig o ran sut a ble y byddem yn cynnal yr archwiliadau, ond hefyd o ran yr ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol a oedd yn deillio'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae ein llwyddiant wrth barhau i gynnal archwiliadau o ansawdd mewn modd amserol yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan ein staff a swyddogion cyrff cyhoeddus i dderbyn a galluogi ffyrdd newydd o weithio a bod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r materion lu sy'n codi.
- 5 Ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad hwn, mae gwaith bellach wedi dechrau ar ein rhaglen waith ardystio grantiau ac ar archwilio tua £320 miliwn o arian Ewropeaidd a ddefnyddir i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru. Disgwylwn i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2021.
- 6 Rydym wedi ail-lunio ein cynlluniau archwilio ym maes llywodraethau a gwerth am arian mewn cyrff unigol a archwilir yn y GIG a llywodraeth leol yn sylweddol er mwyn canolbwyntio ar y materion sydd fwyaf perthnasol i'r sefyllfa bresennol sy'n parhau i ddatblygu.
- 7 Mae hyn wedi cynnwys datblygu rhaglen o waith dysgu gwersi COVID a newid cwmpas ein rhaglenni er mwyn ymdrin yn helaethach â materion megis cynlluniau adfer. Rydym hefyd wedi cynnwys gwaith ar Brofi, Orlhain a Diogelu yn ein rhaglenni lleol. Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn mor gyflym â phosibl er mwyn sicrhau bod unrhyw sylwadaeth gychwynnol a lunnir gennym (boed ar lefel leol neu genedlaethol) yn cael ei chyflwyno mewn pryd i lywio'r gwaith o ddatblygu prosesau Profi, Orlhain a Diogelu sy'n mynd rhagddo yng nghyd-destun cynllunio ar gyfer y gaeaf.

- 8 Nid ydym yn cynnal archwiliadau ffurfiol o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'i nodwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn 2020-21. Fodd bynnag, rydym yn manteisio ar y cyfle i gasglu gwybodaeth berthnasol drwy ein rhaglenni gwaith diwygiedig, fel y bo'n briodol.
- 9 Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym a'r mathau o waith archwilio a gynhelir yn y cyrff hynny yn **Atodiad 1**.

Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

- 10 Fel yr amlinellwyd yn fanylach yn ein Cynllun Blynyddol ym mis Mawrth, yn ein barn ni, roedd y prif ffactorau yn ein hamgylchedd gweithredu a fyddai'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn ymgymryd â'n gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf fel a ganlyn:
 - a goblygiadau Brexit;
 - b ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;
 - c argyfwng yr hinsawdd;
 - ch heriau economaidd-gymdeithasol; a
 - d chymdeithas fwyfwy rhwydweithiol.
- 11 Mae ein rhaglen waith genedlaethol bob amser wedi cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid a materion sy'n achos pryder i'r cyhoedd neu'r Senedd, felly, gyda goblygiadau pandemig COVID-19 yn cael eu hychwanegu'n hwyr at y rhestr honno, rydym wedi dangos yr hyblygrwydd hwnnw eleni yn fwy nag erioed o'r blaen.
- 12 Ers dechrau'r cyfyngiadau symud cenedlaethol ym mis Mawrth, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Senedd i gefnogi ei waith craffu ei hun ar agweddau ar ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19. Rydym hefyd wedi bod mewn cysylltiad â'r swyddfeydd archwilio eraill yn y DU er mwyn trafod ymatebion ein gilydd i'r pandemig.
- 13 Er nad ydym wedi cyhoeddi unrhyw adroddiadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar yr ymateb i COVID-19 nac effaith y pandemig eto, rydym wedi ail-lunio llawer o'n gwaith arfaethedig i'w osod yn y cyd-destun hwn. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r sylwadaeth yn ein hadroddiadau diweddar ar Mynd i'r Afael â Thwyll, Ailddechrau Gofal wedi'i Gynllunio y GIG a Cysgu Allan.

- 14 Rydym hefyd wedi penderfynu bwrw ymlaen ag ychydig o waith ychwanegol ar Gyfarpar Diogelu Personol. Disgwylw'n y bydd ein ffocws yn bennaf ar edrych i'r dyfodol, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r ymateb cychwynnol a'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith i reoli'r risgiau ynglŷn â pharhad cyflenwadau a threfniadau dosbarthu effeithiol mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- 15 Ochr yn ochr â hynny, fel rhan o'n hymateb i'r amgylchiadau newidiol, yn anochel, bu'n rhaid i ni ailflaenoriaethu ein gwaith ryw ychydig. Mae rhai o'r prosiectau roeddem yn bwriadu eu dechrau'n wreiddiol yn ail hanner y flwyddyn ariannol wedi cael eu hatal dros dro, ac rydym bellach yn debygol o edrych eto ar y pynciau hynny (sy'n cynnwys adolygiadau dilynol o seilwaith band eang, tai fforddiadwy, a rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol) fel rhan o'n gwaith cynllunio ar gyfer 2021-22.
- 16 Rydym hefyd wedi cwtfogi ar rai o'n cynlluniau i ymgymryd â gwaith manylach ac allbynnau annibynnol er mwyn arbed amser yn gyffredinol neu adlewyrchu lle na fu modd cwblhau gwaith maes arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith ar gynllunio'r gweithlu ar gyfer Llywodraeth Cymru, a rheoli grantiau'n gyffredinol, lle y byddwn yn defnyddio ein sylwadaeth arfaethedig ar gyfrifon Llywodraeth Cymru i roi ychydig o ddadansoddiad lefel uchel cychwynnol yn y meysydd hyn. O ran rheoli grantiau, efallai y byddwn wedyn yn ystyried pennu cwmpas newydd i'r gwaith hwn wrth i ni ystyried datblygiadau perthnasol o ran COVID-19.
- 17 Yn gyffredinol, rydym yn hyderus y byddwn yn cwblhau o leiaf 18 o'n hadroddiadau cenedlaethol yn 2020-21, sef ffigur sy'n gyson â'r targed a'r alldro a nodwyd ar gyfer 2019-20.
- 18 Ceir rhestr gyfredol o'r gwaith sydd wedi'i gwblhau, y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo a gwaith newydd y bwriadwn ei wneud yn ddiweddarach yn 2020-21 fel rhan o'n rhaglen genedlaethol yn **Atodiad 2**.

Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

- 19 Yn ystod cyfnod yr adroddiad interim, bu allbynnau ein gwaith yn sail i naw cyfarfod o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd (a gynhaliwyd drwy lwyfan cyfathrebu fideo).
- 20 Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi mynd ati'n ddiymdroi i ymaddasu i heriau'r sefyllfa bresennol ac mae bellach yn rhan o'r 'norm arferol' i ni fynychu cyfarfodydd eu Pwyllgorau Archwilio a Chraffu drwy lwyfannau cyfathrebu fideo er mwyn rhoi briffiadau rheolaidd a chyflwyno adroddiad ar ein gwaith archwilio.

- 21 Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad ar-lein i Aelodau'r Senedd, eu staff cymorth a staff y Senedd, pan rannodd yr Archwilydd Cyffredinol ganfyddiadau ei adroddiad statudol cyntaf o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020. Cynhaliwyd y digwyddiad ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a rannodd ganfyddiadau ei hadroddiad cyfatebol. Rhoddodd y sesiwn gyfle i ystyried negeseuon allweddol cyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r ddau adroddiad, gyda'r nod o helpu i lywio gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf yn y dyfodol.
- 22 Yn **Atodiad 3**, rydym yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â sut rydym wedi cefnogi sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac, yn fwy cyffredinol, am ein cefnogaeth i brosesau craffu effeithiol ac atebolrwydd yn hanner cyntaf 2020-21.

Gwaith arfer da

- 23 Un ffocws allweddol ar ein gwaith arfer da yw hwyluso sgysiau rhwng darparwyr gwasanaethau, lle caiff gwersi a ddysgwyd o'n gwaith archwilio, ac o'u profiadau cymharol, eu rhannu wyneb yn wyneb. Yn fwyfwy, rydym yn cyflwyno barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr rhyngwladol i'r sgysiau hyn.
- 24 Ni fu ein dull gweithredu mwyaf cyffredin o hwyluso sgysiau o'r fath – cynnal seminarau dysgu ar y cyd – yn opsiwn hyfyw yn 2020-21 oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd. O ganlyniad, cafodd pob un o'r seminarau dysgu ar y cyd a restrwyd yn ein Cynllun Blynyddol gwreiddiol ar gyfer 2020-21 eu canslo.
- 25 Yn hytrach, mae ffocws ein gwaith arfer da wedi newid i gyflawni prosiect dysgu gwersi COVID, lle mae ein staff yn casglu arferion newydd ac arferion eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg ac yn eu dadansoddi'n gyflym er mwyn tynnu sylw at bwyntiau dysgu perthnasol. Yna, rydym yn rhannu ein dealltwriaeth â chysylltiadau allweddol ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ymhlith allbynnau'r prosiect hwn mae nifer o flogiau a phapurau gwyntyllu o sylwedd, ac e-bost 'Crynodeb' wythnosol sy'n crynhoi'r cynnwys a rannwyd a'r pwyntiau o ddiddordeb.

- 26 Mae'r gyfres lawn o flogiau ar gael drwy ein gwefan. Ymhlith yr enghreifftiau nodedig a gyhoeddwyd yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020 mae'r canlynol:
- Profi, Orlhain, Diogelu – pa mor hawdd yw hi i gael gwybodaeth?
 - Gwersi rhyngwladol i gyrff cyhoeddus Cymru wrth ymateb i COVID-19 ac adfer o hynny
 - Dawnsio i guriad newydd: ymateb nesa'r gwasanaethau cyhoeddus i COVID-19
 - Democratiaeth cynghorau lleol – llacio'r cyfyngiadau
 - Cyllid COVID-19 Llywodraeth Cymru
 - Gadael yr ogof...
 - Iechyd meddwl yn ystod COVID-19
 - Cydymffurfio â'n terfynau amser ar gyfer cyfrifon wrth weithio gartref
- 27 Rydym bellach wrthi'n datblygu rhaglen o weminarau i gefnogi'r cynhyrchion hyn gyda phwyslais ar drosglwyddo gwybodaeth ymarferol rhwng cymheiriaid ac ymarferwyr.
- 28 Hefyd, gwnaethom gynnal gweminar ym mis Medi 2020, a oedd yn gysylltiedig â'n rhaglen o astudiaethau cenedlaethol yn dwyn y teitl: Sut mae cyrff cyhoeddus wedi bod yn addasu eu trefniadau seibergadernid yn ystod y cyfnod clo

Meysydd ffocws

- 29 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, nodwyd 11 o feysydd ffocws ar gyfer ein gwaith archwilio yn 2020-21. Ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni pob un o'r ymrwymadau hyn yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn y tabl canlynol.

Maes ffocws	Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma
<p>Gwella'r ffordd rydym yn cyrchu, yn cael ac yn dadansoddi data, gan gynnwys drwy awtomeiddio tasgau syml ac ailadroddus fel y gallwn ganolbwyntio ar feysydd sydd â risg uwch y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt.</p>	<p>Rydym wedi cyrraedd blwyddyn olaf gweithredu strategaeth a rhaglen waith tair blynedd ar ddadansoddi data. Mae datblygiadau yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon wedi cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sefydlu tîm dadansoddi data parhaol; • ystyried sut y gallwn ddefnyddio dulliau awtomeiddio prosesau digidol (botiau) i awtomeiddio tasgau syml ond llafurus; • gweithio ar gyfres o adnoddau a chymwysiadau i ymgorffori gwaith dadansoddi data yn ein gwaith archwilio cyfrifon; • cyflymu'r gwaith o ddarparu mynediad o bell at gyfriflyfrau a systemau ariannol allweddol y GIG a chyrrff llywodraeth leol, er mwyn ein galluogi i gynnal ein gwaith archwilio cyfrifon heb fod angen ymweld â safleoedd yn ystod y pandemig; a • mesur yr arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd posibl yn y dyfodol a gaiff eu sicrhau drwy ddefnyddio dull archwilio a hwylusir gan ddata.
<p>Gwella'r ffordd rydym yn delweddu ac yn cyfleu ein canfyddiadau, gan gynnwys drwy gyhoeddi amrywiaeth ehangach o adnoddau data rhyngweithiol a buddsoddi yn y gwaith o wella sgiliau ymgysylltu a dylanwadu ein staff ymhellach.</p>	<p>Mae ein defnydd o adnoddau data a dulliau adrodd rhyngweithiol wedi parhau i ddatblygu dros hanner cyntaf y flwyddyn hon, ond bu oedi cyn cyflwyno rhai cynhyrchion arfaethedig oherwydd anawsterau i gael gafael ar ddata yn ystod y pandemig. Mae allbynnau allweddol wedi cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diweddarau adnoddau data Cyllid GIG Cymru a gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth ac • adnodd i gefnogi ein hadroddiad ar Cysgu allan yng Nghymru, a oedd hefyd wedi'i ategu gan gyfres o flogiau gan gynnwys Mae data'n rhan o'n bywydau pob dydd, a oedd yn edrych ar ôl troed data rhywun sy'n cysgu allan a'r ffordd y mae angen i gyrrff cyhoeddus wneud defnydd mwy deallus o'r data hynny.

Maes ffocws

Ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o gynulleidfaoedd i roi canlyniadau ein gwaith archwilio ariannol, gan gynnwys drwy ddatblygu allbynnau newydd sy'n esbonio, mewn iaith symlach, wybodaeth a thueddiadau allweddol o gyfrifon cyrff cyhoeddus.

Ystyried yn fanylach y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau mewn ffordd integredig a chydweithredol, gan gynnwys trefniadau gofal iechyd parhaus, y ffordd y darperir gwasanaethau brys a'r ffordd y mae Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn gweithredu.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Rydym wedi parhau i wella ein presenoldeb a'n perthnasedd dros y chwe mis diwethaf drwy lunio cynhyrchion mwy modern a haws eu defnyddio sy'n ymwneud â'n gwaith archwilio cyfrifon. Yn ogystal â'r adnoddau data ariannol a restrir uchod, mae hyn yn cynnwys sylwadaeth symlach a ffeithluniau ar y we ynghylch:

- [cyfrifon cryno'r GIG yng Nghymru](#); a
- [chyfrifon cyngorau unigol yng Nghymru](#).

Yn ein [Cynllun Blynyddol](#), nodwyd sawl allbwn a oedd yn cyd-fynd â'r ymrwymiad hwn, y cafodd nifer ohonynt eu cwblhau i raddau sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi:

- Crynodeb o ganlyniadau ein harchwiliadau a gynhaliwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, [Felly, beth sy'n wahanol?](#);
- Cam dau o adolygiad o drefniadau partneriaeth sy'n ymwneud â phobl sy'n cysgu allan yng Nghymru – [Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb](#); ac
- Archwiliad o [System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru](#), a gyhoeddwyd ar 15 Hydref 2020.

Maes ffocws

Rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n cylch cyntaf o archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy a phenderfynu sut y byddwn yn datblygu ein dull archwilio yn y maes hwn ymhellach.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Ym mis Mai, cyhoeddwyd ein hadroddiad statudol cyntaf o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: [Felly, beth sy'n wahanol?](#) Yn yr adroddiad, ystyriwyd sut roedd cyrff cyhoeddus ledled Cymru wedi cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, hyd yma, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru [adroddiad cysylltiedig](#) ar yr un pryd, ac roeddem wedi bwriadu cynnal digwyddiad dysgu ar y cyd i arweinwyr yn y sector cyhoeddus gyda'n gilydd ym mis Medi. Yn anffodus, penderfynwyd gohirio'r digwyddiad oherwydd yr ail don o achosion o COVID-19 ledled Cymru, ond parhawyd â'n cynlluniau i rannu ein canfyddiadau ag Aelodau'r Senedd, eu staff a staff Comisiynydd y Senedd drwy weminar a drefnwyd ymlaen llaw. Ar 7 Hydref 2020, cyflwynwyd canfyddiadau'r adroddiadau ar y cyd hefyd i grŵp o uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi lansio [ymgyngoriad cyhoeddus](#) yn ddiweddar ar y dull i'w fabwysiadu wrth gynnal ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy dros y pum mlynedd nesaf.

Rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd trefniadau rheoli ariannol cadarn ym maes cyllid cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys drwy gyflwyno trefniadau cryfach ar gyfer archwilio cynghorau cymuned a thref.

Mae allbynnau allweddol dros y chwe mis diwethaf sy'n ymwneud â'r maes ffocws hwn wedi cynnwys:

- diweddar [adnodd data cyllid y GIG](#) gan ystyried tueddiadau yng nghyllid y GIG;
- adroddiad yn nodi bod gweithgareddau twyll wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig, [Gwella ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru](#); ac
- adroddiad a oedd yn ystyried [Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19](#).

Cafodd ein hadroddiad ar yr ymarfer mwyaf diweddar o dan y Fenter Twyll Genedlaethol ei gyhoeddi'n ddiweddar, ac rydym hefyd wedi ymestyn cwmpas ein gwaith ar y [Fenter Twyll Genedlaethol](#) yn 2020 er mwyn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal gwiriadau cymhwysedd ar geisiadau am grantiau cymorth COVID-19. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyflwyno data o'r fath ar grantiau a thaliadau i'r Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn helpu i nodi ceisiadau twyllodrus.

Maes ffocws**Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma**

Diweddarar’ adroddiad ‘Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus’ gan nodi’r heriau allweddol y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac i ba raddau y maent mewn sefyllfa dda i ymateb, er mwyn llywio gwaith y Senedd ar ôl etholiadau 2021.

Mae ein gwaith cynllunio ar gyfer y prosiect hwn yn mynd rhagddo, ond mae’r amserlen yn heriol o dan yr amgylchiadau presennol, felly mae’r prosiect yn cael ei ailgwmpasu yn unol â hynny.

Rydym yn debygol o gyhoeddi’r prif adroddiad o’r gwaith hwn ar ôl etholiadau 2021 ond rydym yn ystyried nifer o allbynnau gwahanol o dan fantell gyffredinol y prosiect hwn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddiweddariad ar ein dadansoddiad Tueddiadau o ran Gwariant Cyhoeddus ym mis Hydref a throsolwg o wariant ar COVID-19 yn 2020-21.

Datblygu cynigion ar gyfer y ffordd y byddwn yn ymateb drwy ein gwaith archwilio i’r heriau sy’n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, gan ystyried yr amcanion a nodir yn ein Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

Rydym yn ymgymryd â gwaith ymchwil cychwynnol yn y maes hwn a byddwn yn ystyried canlyniadau’r gwaith hwnnw ochr yn ochr â’n gwaith i ddatblygu’r ffordd y mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy.

Mae ein hymgyngoriad cyhoeddus ar y dull o gynnal ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy i’w fabwysiadu dros y pum mlynedd nesaf yn gwahodd barn ar faterion penodol y dylem gyflwyno adroddiadau arnynt, ym marn ymatebwyr, wrth ystyried yr heriau mawr y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu. Rydym yn tynnu sylw at yr argyfwng hinsawdd fel un o’r heriau hynny ac rydym wedi rhannu ein hymgyngoriad â rhai sefydliadau cynrychioliadol perthnasol.

Bydd yr adborth a gawn yn helpu i lywio’r broses o ddatblygu ein blaenraglen waith ar gyfer 2021-22.

Maes ffocws

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Drwy ein Cyfnewidfa Arfer Da, ehangu'r amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir i hwyluso'r broses o ddysgu ar y cyd y tu allan i'n rhaglenni craidd o seminarau a gweminarau.

Fel y disgrifir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gyflwyno adroddiadau a rhannu gwersi a ddysgwyd am COVID-19 gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Canslwyd ein rhaglen o seminarau personol a datblygwyd prosiect dysgu am COVID yn lle ein dull dysgu ar y cyd. Mae'r allbynnau yn cynnwys nifer o flogiau a phapurau gwyntyllu o sylwedd, ac e-bost 'Crynodeb' wythnosol sy'n crynhoi'r cynnwys ac yn tynnu sylw at bwyntiau o ddiddordeb.

Rydym bellach wrthi'n datblygu rhaglen o weminarau i gefnogi'r cynhyrchion hyn gyda phwyslais ar drosglwyddo gwybodaeth ymarferol rhwng cymheiriaid ac ymarferwyr.

Datblygu amrywiaeth ehangach o ddulliau o gasglu barn ein rhanddeiliaid ar werth ac effaith ein gwaith, gyda ffocws cychwynnol ar geisio barn Aelodau o'r Senedd.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni ailfeddwl y ffordd rydym yn casglu barn gwahanol gynulleidfaoedd ar effaith a gwerth ein gwaith.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn tendro i benodi cwmni annibynnol i'n helpu i ddatblygu ein dull cyffredinol o gasglu adborth rhanddeiliaid, a chyflwyno arolwg i Aelodau o'r Senedd.

Ehangu ein trefniadau rheoli ansawdd archwilio er mwyn rhoi rhagor o sicrwydd bod ein holl waith wedi'i ategu gan dystiolaeth gadarn a dadansoddi trylwyr, a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gyson â safonau archwilio rhyngwladol newydd.

Mewn ymateb i ddatblygu safonau ansawdd archwilio rhyngwladol ymhellach, rydym wedi archwilio'n feirniadol ein dull archwilio a'n trefniadau ansawdd yn ystod y misoedd diwethaf.

Cyfarfu'r Pwyllgor Ansawdd Archwilio newydd ei sefydlu am y tro cyntaf ar 30 Mehefin 2020. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys Pamela McCreedy, Prif Swyddog Gweithredu Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, a fydd yn gwasanaethu fel Aelod Proffesiynol Annibynnol.


Caiff y broses o ddatblygu ein model rheoli ansawdd newydd ei llywio gan ein rhaglen 'Archwilio Cyfrifon 2022' sy'n cynnwys cyfres o brosiectau strategol sy'n cefnogi ein gweledigaeth i ddarparu gwaith archwilio cyfrifon dibynadwy o safon uchel sy'n cefnogi dealltwriaeth a gwelliant.

Rhedeg y busnes

Gwaith craidd



Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£22 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio



Cyflogi tua **270 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth



Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau



Monitro'r modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

- 30 Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi parhau i fonitro'n fanwl sefyllfa COVID-19 sy'n newid yn gyflym a gweithredu'n unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Heblaw am gyfnod byr ym mis Medi pan ail-agorwyd ein swyddfeydd mewn ffordd gyfyngedig iawn, mae pob un o'n swyddfeydd wedi parhau i fod ar gau drwy gydol y chwe mis diwethaf mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, ac yn fwy diweddar, y cyfyngiadau symud lleol. Mae ein holl staff yn gweithio o bell yn eu cartrefi.
- 31 Ein blaenoriaethau o ran rhedeg y busnes fu ymaddasu a lleihau achosion o darfu ar ein gwaith archwilio a gweithrediad ein swyddogaethau gwasanaeth corfforol i'r eithaf, a sicrhau ein bod yn gwneud y peth cywir dros ein pobl, gan eu cadw'n ddiogel a monitro eu llesiant. Drwy gydol y cyfnod adrodd, ein hegwyddor fu 'hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno' ac mae'n parhau felly.
- 32 Ers i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2020 ac ers i'n swyddfeydd gau dros dro, mae'r Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arwain Gweithredol wedi parhau i weithredu'n effeithiol drwy ddefnyddio llwyfannau cyfarfod ar-lein.

- 33 Ar 4 Mai 2020, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfod a gynullwyd yn arbennig a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:
- a cael sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd ymateb rheolwyr i argyfwng COVID-19;
 - b cael gwell dealltwriaeth o'r goblygiadau o ran cyflawni Cynllun Blynyddol 2020-21 a'r sefyllfa ariannol; a
 - c chynnal adolygiad o'r ychwanegiadau cysylltiedig i'r gofrestr risgiau strategol.
- 34 Canmolodd y Bwrdd ymateb y rheolwyr, gan werthfawrogi'r amser a'r ymdrech a fuddsoddwyd i fynd i'r afael â'r argyfwng a chydabod pwysigrwydd cydbwysu llesiant cyflogaion a chyflawni ein busnes. Cafodd yr aelodau sicrwydd bod gennym sylfaen gadarn i ddatblygu ein syniadau ar ein sefyllfa yn yr hirdymor.
- 35 Ers hynny, mae'r Bwrdd wedi cael diweddariadau rheolaidd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y ffordd y mae ein hymateb wedi datblygu, ac mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad lefel uchel o'r ffordd rydym wedi rheoli argyfwng COVID-19 a pharhad busnes. Caiff canlyniadau'r adolygiad eu cyflwyno i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2020.
- 36 Yn ganolog i'n hymateb i'r pandemig bu'r defnydd o dechnolegau sy'n ein galluogi i gysylltu, gweithio a chydweithio o bell ac yn hyblyg ymhlith ein timau a chyda'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym. Mae ein strategaeth barhaus ar fuddsoddi mewn TG, a oedd yn cynnwys buddsoddi £63,000 mewn gliniaduron hybrid newydd yn 2019-20, a oedd yn galluogi'r staff i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol gartref, wedi ein galluogi i symud yn gymharol ddidrafferth i drefniadau gweithio o bell.
- 37 Un elfen allweddol arall o'n hymateb fu'r defnydd cynyddol o amrywiaeth eang o gyfryngau a dulliau o gysylltu â'n cyflogaion, gan roi sicrwydd a'r diweddariadau hanfodol ar y sefyllfa fel mae'n datblygu, gwybodaeth ynglŷn â sut y gallant gael gafael ar adnoddau a chymorth, a chasglu adborth ar eu profiadau er mwyn helpu i nodi unrhyw feysydd sy'n achosi pryder.

- 38 Mae'r dulliau hyn wedi cynnwys:
- a negeseuon wythnosol i'r holl staff oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol;
 - b cyhoeddi blogiau rheolaidd gan aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol;
 - c cynnal arolygon 'teimlo pŷls' o bryd i'w gilydd;
 - ch cynnal briffiadau a sesiynau holi ac ateb i'r staff cyfan drwy lwyfannau cyfathrebu fideo; a
 - d rhaeadru gwybodaeth yn rheolaidd i reolwyr llinell.
- 39 Hefyd, ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad hwn, rydym yn cynnal ein harolwg blynyddol i'r staff cyfan. Unwaith eto, rydym yn defnyddio'r un holiadur arolwg craidd ag a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil er mwyn cael meincnodi'n effeithiol a chymharu o flwyddyn i flwyddyn. Eleni, cynhwyswyd adran ychwanegol fer sy'n archwilio profiadau unigolion o weithio yn Archwilio Cymru yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19).
- 40 Mae ein staff wedi gweithio'n hynod galed i barhau i gyflawni ein gwaith mewn amgylcheddol hollol wahanol a heriol. Drwy'r cyfan, rydym wedi blaenoriaethu llesiant ein staff ac wedi derbyn bod y pandemig, yn anochel, wedi cael effaith ar ein gallu cyffredinol wrth i gydweithwyr ymdopi â chyfrifoldebau gofalu, gwarchod ac effeithiau uniongyrchol eraill y feirws. Mae hyn yn effeithio ar dimau archwilio a gwasanaethau corfforaethol i wahanol raddau ac rydym yn rhagweld y bydd rhagor o heriau o ran adnoddau drwy gydol y gaeaf, yn dibynnu ar ddatblygiadau ehangach COVID-19.
- 41 Daw tua dwy ran o dair o'n cyllid o ffioedd a godir ar gyrrff a archwilir yn unol â chynllun ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid arall yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, ac mae'r Bwrdd yn craffu ar ein defnydd o'r cyllid hwnnw yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Nodwyd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2020-21 yn wreiddiol mewn [Amcangyfrif](#), a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2019.

- 42 Fodd bynnag, yng nghanol cyfyngiadau symud y DU gyfan ar ddechrau blwyddyn ariannol 2020-21, roeddem yn wynebu risg wirioneddol o leihad sylweddol yn incwm ffioedd archwilio am nad oedd yn glir i ba raddau y byddem yn gallu gwneud ein gwaith archwilio lleol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn - yn enwedig ein gwaith archwilio perfformiad.
- 43 Ar ôl ailwampio ein rhaglen archwilio'n sylweddol ac ymdrech fawr ar y cyd gan ein staff a swyddogion y cyrff cyhoeddus perthnasol i'n galluogi i gynnal gwaith archwilio o bell, yn ystod chwe mis cyntaf 2020-21 llwyddwyd i wneud mwy o waith ac felly gynhyrchu cyfran fwy o'n hincwm ffioedd arfaethedig na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, yn seiliedig ar amcanestyniadau a gloriannodd y sefyllfa a oedd yn datblygu drwy fis cyntaf cyfnod y cyfyngiadau symud.
- 44 Hefyd, rydym wedi lleihau ein gwariant drwy adolygu anghenion gwariant hanfodol ar ddechrau'r flwyddyn, gan wneud arbedion ym maes teithio a chynhaliaeth a chostau ystad, a chanslo digwyddiadau dysgu ar y cyd a gynlluniwyd na allent fynd rhagddynt mwyach.
- 45 Ond, i ryw raddau, mae'r arbedion hyn wedi cael eu gwrthbwysu gan gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â sicrhau bod gan ein staff yr holl gyfarpar sydd ei angen arnynt ac y gallant weithio'n ddiogel gartref a sicrhau bod ein swyddfeydd yn ddiogel i'w hailagor.
- 46 Fel mesur rhagofalus, ysgrifennwyd at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Gorffennaf 2020 i nodi, er ein bod wedi llwyddo i wrthbwysu lleihad mewn incwm ffioedd drwy arbedion gwariant cyfatebol i raddau helaeth, ein bod yn wynebu cryn ansicrwydd o hyd yn y misoedd i ddod. Nodwyd yn ein llythyr y bydd angen o hyd o bosibl i ni gyflwyno Amcangyfrif Atodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar gyfer cyllid ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn gwrthbwysu effeithiau ar lefelau incwm o ganlyniad i ohirio gwaith archwilio, ei wneud dros gyfnod estynedig neu ei atal dros dro. Wrth i ail don y feirws gynyddu, erys yr ansicrwydd hwn.

Meysydd ffocws

- 47 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, nodwyd chwe maes ffocws ar gyfer rhedeg ein busnes yn 2020-21. Ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni pob un o'r ymrwymadau hyn yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn y tabl canlynol.

Maes ffocws	Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma
Ailstrwythuro ein huwch dîm gweithredol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb â'n huchelgeisiau cyffredinol a chryfhau'r arweinyddiaeth strategol a roddir i'r staff.	Rydym wedi dechrau ailstrwythuro ein huwch dîm rheoli drwy benodi Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym yn cynnal ymarferion recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid.
Gwneud newid mawr i'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli prosiectau newid mawr, gan gynnwys drwy gymhwyso arferion rheoli newid mwy trylwyr a chyson.	Yn ystod y chwe mis diwethaf, ar ôl sefydlu Tîm Rhaglen Newid canolog penodol i gydlynu'r gwaith cyflawni a sicrhau dull gweithredu cyson, rydym wedi parhau i gymryd camau i wella'r ffordd o gyflawni pob math o brosiectau newid yn Archwilio Cymru. Mae hyn wedi cynnwys dwyn ynghyd bortffolio o brosiectau newid â blaenoriaeth, sefydlu Bwrdd Rhaglen Newid i gefnogi a goruchwyllo'r broses gyflawni a rhoi adnoddau ar gyfer gweithredu, a meithrin ein sgiliau newid ym mhob rhan o Archwilio Cymru.
Gwella ein proffil cyhoeddus drwy ddatblygu llais corfforaethol mwy allblyg ac unigryw a gwneud ein hunain yn fwy adnabyddadwy drwy fabwysiadu'r hunaniaeth fantell 'Archwilio Cymru'.	Ar 1 Ebrill 2020, casglwyd ynghyd wahanol elfennau ein gwaith o dan yr hunaniaeth fantell gliriach, newydd, sef Archwilio Cymru. Ers hynny, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i foderneiddio ein hadroddiadau archwilio a chynnwys ein gwefan a rhoi ffocws newydd iddynt, gan gynnwys defnyddio delweddau, adnoddau data a dulliau adrodd rhyngweithiol. Mae hyn hefyd wedi cynnwys defnydd mwy rhagweithiol o flogiau i dynnu sylw'r cyhoedd at uchafbwyntiau a diweddariadau mewn perthynas â'n canfyddiadau mewn ffordd amserol a mwy hygyrch.

Maes ffocws**Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma**

Cryfhau ein strategaeth i ddenu, cadw a datblygu gweithlu hyfedr ac amrywiol, gyda ffocws penodol ar sicrhau bod ein prosesau recriwtio, rheoli talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn cael eu hadnewyddu a'u bod yn addas at y diben.

Rheoli talent a chynllunio'r gweithlu yw un o'r meysydd allweddol â ffocws ar gyfer ein Strategaeth Gweithlu ddiwygiedig, a gymeradwywyd gan y Tîm Arwain Gweithredol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi 2020.

Mae'r strategaeth wedi'i hategu gan Gynllun Cyflawni manwl ar gyfer y Gweithlu, y caiff cynnydd yn ei erbyn ei fonitro bob chwarter gan ein Tîm Arwain Gweithredol a'n Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol.

Parhau i roi cymorth i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar ei waith i fynd i'r afael â chymhlethdod diangen ein trefniadau codi ffioedd statudol a'n trefniadau llywodraethu.

Y llynedd, ac ar ddechrau'r flwyddyn hon, rhoddwyd briffiad helaeth i helpu'r Pwyllgor Cyllid i ddatblygu Bil i ddiwygio ein gofynion codi ffioedd statudol a llywodraethu, er mwyn lleihau cymhlethdod.

Yn anffodus, mae'n annhebygol iawn y byddai'r Bil yn cael ei basio heb gefnogaeth Llywodraeth Cymru ac er i'r Gweinidog fynegi ei chefnogaeth iddo'n glir ym mis Gorffennaf 2019, ers hynny mae safbwynt Llywodraeth Cymru wedi newid. Felly, mae'r Pwyllgor wedi atal ei waith ar y Bil dros dro ac mae'n annhebygol o fwrw ymlaen ymhellach â'r gwaith hwnnw tan ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2021. Rydym yn barod i roi rhagor o gymorth i'r Pwyllgor unwaith y bydd yn ailddechrau ei waith ar y Bil.

Maes ffocws

Ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau helaethach yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys pan fyddwn yn cynnal adolygiad o drefniadau teithio a chynhaliaeth ein staff, yn datblygu cynigion ar gyfer diwallu ein hanghenion ar gyfer swyddfeydd yn y dyfodol, ac yn arbrofi â ffyrdd newydd mwy effeithlon a deallus o weithio.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Er nad ydym yn un o'r cyrff sydd wedi'u rhestru at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn ceisio cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein gweithrediadau. Mae gwaith wedi mynd rhagddo dros y chwe mis diwethaf i ddatblygu cynigion ar gyfer diwallu ein hanghenion yn y dyfodol o ran swyddfeydd ac arbrofi â ffyrdd newydd a mwy effeithlon a deallus o weithio. Bydd yr adolygiad o drefniadau teithio a chynhaliaeth ein staff yn dechrau'n llawn cyn hir.

Mae ein Bwrdd wedi nodi tair ffordd o gyflawni ei ymrwymiad i ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau helaethach yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â'r prosiectau hyn:

- herio'r cynigion, y cynlluniau a'r strategaethau sy'n dod ger ei fron i benderfynu arnynt;
- ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes; a
- cheisio sicrwydd gan reolwyr ynglŷn â sut y caiff y pum ffordd o weithio eu cymhwyso drwy'r sefydliad cyfan.

Dangosyddion perfformiad allweddol

Crynoir y sefyllfa ar 30 Medi 2020 o ran cyflawni targedau ein 18 o ddangosyddion perfformiad allweddol isod.

DPAau sy'n ymwneud â chyflawni gwaith archwilio

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed	Perfformiad hyd at 30 Medi
1	Terfynau amser statudol	Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd yn unol â'r terfyn amser statudol gofynnol.	100%	100% Ar y trywydd cywir ¹
2	Yn brydlon	Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnir yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol.	90%	93% Ar y trywydd cywir
3	Ansawdd	Cyfran yr archwiliadau a adolygwyd a ddarperir yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol.	Roedd 100% o'r sampl a aseswyd yn foddhaol neu'n uwch, ac roedd 90% yn dda neu'n uwch	Ddim ar gael eto ²
4	Hygrededd	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn adroddwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraeth a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus.	O leiaf 90%	100% Ar y trywydd cywir

1 O dan reoliadau newydd ymestynnwyd y terfynau amser statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr gyhoeddi cyfrifon blynyddol 2019-20 a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

2 Caiff adolygiadau eu cynnal yn ail hanner 2020-21.

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed	Perfformiad hyd at 30 Medi
5	Darparu Dirnadaeth	Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, trwy ein gwaith, wedi cael dirnadaeth ddefnyddiol na fyddent wedi ei chael fel arall	O leiaf 80%	94% Ar y trywydd cywir
6	Ysgogi gwelliant	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus	O leiaf 80%	88% Ar y trywydd cywir
7	Arbedion a nodwyd	Gwerth arbedion posibl a nodwyd drwy ein gwaith.	O leiaf £30 miliwn yn ystod 2018-2021	£25.7 miliwn ³ Ar y trywydd cywir
8	Digwyddiadau arfer da	Cyfran y bobl a ddaeth i'n seminarau a'n gweminarau a ystyriodd y digwyddiadau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.	O leiaf 90%	Dd/G ⁴
9	Ymweliadau â'n gwefan	Nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo..	25,000 y flwyddyn	14,789 Ar y trywydd cywir
10	Cyfyngau cymdeithasol	Nifer yr ymgysylltiadau ar gyfyngau cymdeithasol, h.y. ymgysylltiadau â'n negeseuon trwy eu hoffi, trwy wneud sylw arnynt, neu drwy eu rhannu.	1,300 y flwyddyn	1,237 Ar y trywydd cywir
11	Rhannu dysg am archwilio	Number of instances where we present audit learning to key policy working groups or at relevant externally hosted events.	50 y flwyddyn	57 Ar y trywydd cywir

3 Yn cynnwys arbedion posibl a nodwyd drwy ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol.

4 Cafodd pob seminar dysgu ar y cyd a restrwyd yn ein Cynllun Blynyddol gwreiddiol ar gyfer 2020-21 ei ganslo. Yn wreiddiol, roeddem wedi bwriadu cynnal digwyddiadau dysgu a rennir ar gyfer dros 1,100 o bobl yn ystod 2020-21.

DPAau sy'n ymwneud â rhedeg y busnes

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed	Perfformiad hyd at 30 Medi
12	Ymgysylltu â chyflogeion	Canran y sgôr mynegai ymgysylltu arolwg blynyddol y staff sy'n gadarnhaol (wedi ei gyfochrri ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil)	O leiaf y sgôr 10% uchaf ar gyfer yr CSPS diweddaraf	Ddim ar gael eto ⁵
13	Profiad cyflogeion	Canran y sgorau cadarnhaol profiad y cyflogeion yn arolwg thematig blynyddol y staff	O leiaf y sgoriau 25% uchaf ar gyfer yr CSPS diweddaraf	Ddim ar gael eto
14	Absenoldeb oherwydd salwch	Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd bob blwyddyn fesul aelod o staff.	Llai na chwe diwrnod	6.4 diwrnod Yn agos at gyflawni'r targed
15	Mantoli ariannol	Lefel yr amrywiant mewn incwm a gwariant gros o'i chymharu â'r hyn a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol.	O fewn 2% i'r gyllideb	0.5% Ar y trywydd cywir
16	Arbedion o ran cosaut ac effeithlonrwydd	Gwerth yr arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd a nodwyd ym mhob rhan o'r busnes.	£1.3 miliwn yn 2020-21	£1.7 miliwn Ar y trywydd cywir
17	Allyriadau nwyon tŷ gwydr	Cyfanswm yr allyriadau CO2 cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan a brynwyd, i'r hyn a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau.	290 tonnell yn 2020-21	46 tonnell Ar y trywydd cywir
18	Cyfradd llwyddo hyfforddeion	Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo'r tro cyntaf yn eu harholiadau Proffesiynol Lefel Uwch gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr.	O leiaf 90%	91% Ar y trywydd cywir

5 Cynhelir yr arolwg staff diweddaraf yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2020; caiff y canlyniadau eu cyhoeddi ar ein gwefan maes o law.



Atodiadau

- 1 Gwaith archwilio lleol**
- 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol**
- 3 Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol**

1 Gwaith archwilio lleol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y rhan fwyaf o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Corff cyhoeddus	Archwilio cyfrifon	Gwaith archwilio perfformiad lleol ⁶	Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol
Comisiwn y Senedd	✓		
Llywodraeth Cymru	✓		✓
8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru	✓		✓ ⁷
Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth	✓		
4 cwmni Llywodraeth Cymru	✓		
8 Comisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr	✓		
7 Bwrdd Iechyd Lleol	✓	✓	✓
3 Ymddiriedolaeth y GIG ac Awdurdod Iechyd Arbenig	✓	✓	✓ ⁸
22 o gynghorau (Awdurdodau Unedol)	✓	✓	✓
4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl	✓	✓	
3 Awdurdod Tân ac Achub	✓	✓	✓
3 Awdurdod Parc Cenedlaethol	✓	✓	✓
9 Cronfa bensiw	✓		
Nifer o gyrrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cyd-bwyllgorau, ardaloedd draenio ac awdurdodau harbwr	✓		
Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned	✓ ⁹		

6 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Mae'r gwaith archwilio perfformiad a gynhelir yn y sector hwn ar hyn o bryd yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

7 Dim ond ar gyfer cyrrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8 Dim ond ar gyfer cyrrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

9 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio lleol mewn amrywiaeth o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/ neu lywodraeth leol.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau mewn ymateb i bryderon cyhoeddus a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol mewn gohebiaeth. Mae allbynnau cryn dipyn o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd.

Rydym yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n rheolaidd, gan ystyried ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu'r cyrff a archwilir gennym i ymgysylltu â ni.

Gwaith a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth	
<u>Canfyddiadau o Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol</u>	<u>10 Cyfle i ailosod ac ailgychwyn system gofal wedi'i gynllunio y GIG</u>
<u>Sicrhau bod Grantiau Datblygu Gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian</u>	<u>Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith</u>
<u>Cysgu allan yng Nghymru – problem i bawb; cyfrifoldeb i neb</u>	<u>Masnacheiddio mewn llywodraeth leol</u>
<u>Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru</u>	<u>Llywodraeth leol - cynaliadwyedd ariannol</u>
<u>Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</u>	<u>Y Fenter Twyll Genedlaethol</u>
<u>Cracio'r cod: rheoli codio clinigol ledled Cymru</u>	<u>System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru</u>

Gwaith sy'n mynd rhagddo neu a fydd yn dechrau cyn hir	
Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol	Cyfarpar Diogelu Personol
Gofal heb ei drefnu, adnodd data	Sylwadaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru
Trefniadau athrawon cyflenwi ar gyfer absenoldeb	Diwygio'r cwricwlwm
Sylwadaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru gan gynnwys <ul style="list-style-type: none"> Gweithlu Llywodraeth Cymru Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru 	Effaith cyni cyllidol ar wasanaethau dewisol awdurdodau lleol
TGCh Llywodraeth Cymru	Adfywio Trefi yng Nghymru
Cadernid digidol cyrff cyhoeddus – seibergadernid	Taliadau uniongyrchol mewn llywodraeth leol
Gweinyddu cyllid myfyrwyr	Gwasanaethu brys – cydweithio
Rhaglen Cartrefi Clyd – Arbed a Nyth	Gwasanaethau orthopedig
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	Y ddyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol
Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus	Cyfnod Pontio o'r UE
Asesiad strwythuredig o'r GIG – sylwadaeth gryno	

3 Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Senedd

Mae ein gwaith yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth iddo ystyried materion sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad interim, bu allbynnau o'n gwaith yn sail i naw cyfarfod o'r Pwyllgor (a gynhaliwyd drwy lwyfan cyfathrebu fideo). Mae hyn wedi cynnwys ystyriaeth gychwynnol o adroddiadau Archwilio Cymru ar y canlynol:

- [Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau o Staff Dros Dro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr](#);
- [Canfyddiadau o Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol](#);
- [Sicrhau bod Grantiau Datblygu Gwledig a Ddyfarnwyd heb Gystadleuaeth yn rhoi Gwerth am Arian](#);
- [Cysgu Allan yng Nghymru](#);
- [Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru](#); ac
- [Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd](#).

Rydym hefyd wedi cefnogi sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor a/neu adroddiadau ar amrywiol bynciau, gan ddefnyddio gwaith archwilio blaenorol lle y bo'n berthnasol:

- ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, gan gynnwys cymorth ariannol i fusnesau;
- effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru;
- caffael cyhoeddus yng Nghymru;
- craffu ar gyfrifon; a
- gwella ffordd yr A465 Rhan 2.

Mae ein gwaith hefyd wedi llywio gwaith pwyllgorau eraill y Senedd y mae eu cylch gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig. Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae hyn wedi cynnwys:

- tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar i'r Pwyllgor Cyllid ar weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu'r fframwaith cyllidol;
- tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru); a
- thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ar gapasiti'r Senedd.

Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Yn ystod cyfnod yr adroddiad interim, ni fu modd i ni fod yn bresennol yn bersonol (fel y byddai'n digwydd fel arfer) yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu'r prif gyrff a archwilir gennym. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi mynd ati'n ddi-oed i ymaddasu i heriau'r sefyllfa ac rydym bellach yn mynychu cyfarfodydd o'r fath yn rheolaidd drwy ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu fideo.

Rydym yn parhau i roi briffiadau ac adroddiadau ar ein gwaith archwilio ynghyd â chynghor a chymorth i atgyfnerthu effeithiolrwydd llywodraethu. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i'n rhaglenni gwaith mewn ymateb i sefyllfa COVID-19 ac ar godi ymwybyddiaeth o ganlyniadau allweddol y gwaith hwnnw.

Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan aelodau o'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl am y ffordd y caiff arian ac asedau cyhoeddus eu gwarchod.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, daeth 25 o eitemau o ohebiaeth i law a gwnaethom sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol. Hefyd, cysylltodd 10 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020 gan nodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

Pan fydd angen i dimau archwilio wneud gwaith ymchwiliol pellach mewn ymateb i unrhyw bryderon a godir drwy ohebiaeth neu ddatgeliadau chwythu'r chwiban, mae'r gwaith hwn yn gyffredinol yn cymryd ychydig mwy o amser na'r disgwyl oherwydd yr angen i weithio o bell. Os na allwn roi ateb terfynol i'r gohebydd/datgelwr o fewn 30 diwrnod gwaith, byddwn yn rhoi ymateb interim, gan gynnwys amcangyfrif o'r terfyn amser ar gyfer rhoi ateb llawn.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Mr Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Y Senedd

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: IE20012AC/210/caf
Dyddiad cyhoeddi: 1 Hydref 2020

Annwyl Llŷr

Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth yr wythnos ddiwethaf gyda'r Pwyllgor, fe wnaethom addo rhoi peth eglurhad ychwanegol ar un neu ddau o'r eitemau a godwyd.

Ad-daliad Ymadawiad Gwirfoddol

Ar dudalen 80 ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon, rydym yn datgan bod ein cynllun ymadael gwirfoddol wedi costio £638,687 yn 2019-20 ac y bydd hyn yn sicrhau arbedion blynyddol o £322,000 ac yn cyflawni ad-daliad mewn 19 mis. Sylwer bod costau'r cynllun yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol o 13.8%, oedd yn daladwy ar bob ymadawiad a oedd i ddigwydd ar ôl 6 Ebrill 2020.

Roeddech yn gofyn am eglurhad ychwanegol ar y ffordd y cyfrifwyd yr ad-daliad hwn.

Mae ein cyfrifiadau ad-dalu yn ystyried y ffaith y bydd unrhyw swyddi gwag arfaethedig, y bwriedir eu llenwi, yn dechrau ar waelod ein bandiau cyflog ac felly'n sicrhau arbedion ychwanegol yn y blynyddoedd cynnar. Y ffigur arbedion blynyddol a ddyfynnir yw'r arbedion parhaus unwaith y bydd y staff newydd wedi cyrraedd brig eu band cyflog. Mae Arddangosyn 1 yn dangos y cyfrifiadau sy'n cefnogi'r symiau hyn.

Arddangosyn 1: Ad-daliad Ymadawiad Gwirfoddol 2019-20

	£	Balans	Ad-daliad
Cost y cynllun 2019-20	638,687		
Blwyddyn Arbedion 1	(426,311)	213,376	12 mis
Blwyddyn Arbedion 2	(355,900)	(143,524)	7 mis
Arbedion parhaus	(322,167)		
			19 mis

Caiff yr arbedion a ddangosir yn Arddangosyn 1 eu cyflawni ar draws 9 aelod o staff a gytunodd ar delerau ymadael yn 2019-20. Yr arbedion a'r ad-daliadau cysylltiedig â thaliadau ymadael i'r 2 uwch gyfarwyddwr yn unig sy'n cael eu dangos yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Ad-dalu Ymadawiad Gwirfoddol 2019-20 (Uwch Gyfarwyddwyr)

	£	Balans	Ad - dalu
Cost y cynllun 2019-20	362,395		
Blwyddyn Arbedion 1	(203,999)	158,396	12 mis
Blwyddyn Arbedion 2	(197,565)	(39,169)	10 mis
Arbedion parhaus	(152,460)		
			22 mis

Gofynnodd y Pwyllgor a ddylai'r unigolion fod wedi cael eu trin fel rhai a oedd wedi eu diswyddo'n orfodol a'u talu'n unol â hynny. Cyfeiriwn y Pwyllgor at Gynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil sy'n gymwys i'r cyflogeion sydd yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a bennwyd gan Lywodraeth y DU, sy'n nodi bod yn rhaid i bob aelod o staff, a all fod yn wynebu diswyddiad gorfodol, fod wedi cael cyfle yn gyntaf i adael dan delerau gwirfoddol. Yn y ddau achos, felly, roedd gan yr unigolion hawl gytundebol i adael o dan delerau gwirfoddol, yn hytrach na thelerau gorfodol. Yn un achos derbyniodd yr unigolyn daliad oedd yn sylweddol is na'r uchafswm y byddai ganddo hawl iddo dan delerau ymadawiad gwirfoddol. Yn yr achos arall, derbyniodd yr unigolyn daliad a oedd yn cyfateb i'r taliad gorfodol yr oedd ganddo hawl iddo ac unwaith eto roedd hyn yn llai na'r uchafswm y byddai ganddo hawl iddo o dan delerau ymadawiad gwirfoddol.

Costau Ymadael Gwirfoddol Cymharol

Roeddech yn holi ynghylch y ffordd yr oedd y taliadau ymadael a wnaed i'r uwch gyfarwyddwyr yn cymharu â'r rhai yn y sector preifat. Yn anffodus, yn wahanol i gyrff cyhoeddus, nid yw'n ofynnol i gwmnïau archwilio preifat ddatgelu unrhyw daliadau ymadael yn eu cyfrifon blynyddol ac, o ganlyniad, nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd.

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol blaenorol Cymru adroddiad ar [reoli ymadawiadau cynnar ar draws gyrff cyhoeddus Cymru](#) sy'n darparu peth gwybodaeth gymharol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Y 'rheol dim mwy na chost lawn'

Dywedasom y byddem yn darparu gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor i fod o gymorth i ddeall Nodyn 1(a) yn y datganiadau ariannol ar gyfer 2019-20 ar dudalen 107 ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Yr hyn yr oedd gan y Pwyllgor ddiddordeb ynddo oedd p'un a gydymffurfiwyd â'r rheol "dim mwy na chost lawn" yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r agwedd honno ar y ddeddfwriaeth drwy'r fethodoleg yr ydym yn ei dilyn wrth bennu cyfraddau ffioedd fesul awr ar gyfer y flwyddyn. Nodir y rhain yn y cynllun ffioedd am y flwyddyn ac fe'u cymeradwyir gan y Pwyllgor Cyllid. Mae'r cyfraddau hynny'n cynnwys dosrannu sylfaen gostau Archwilio Cymru (ac eithrio agweddau a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru) ar draws amcangyfrif o'r oriau ennill ffioedd. Mae'r fethodoleg hon wedi'i harchwilio gan ein harchwilwyr allanol, RSM, ac wedi ei chael yn sail resymol ar gyfer sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Nid yw'r nodyn yn y cyfrifon wedi cael ei baratoi ar yr un sail, ond mae wedi ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Y ffigurau incwm yw cyfanswm yr oriau a weithiwyd x y cyfraddau ffioedd cymeradwy wedi ei addasu wedyn ar gyfer addasiad cyfrifyddu 'cost cwblhau' diwedd blwyddyn, er mwyn sicrhau ein bod yn dosrannu incwm yn briodol ar draws y blynyddoedd ariannol y mae'r gwaith archwilio yn ymwneud â hwy.
- Mae'r ffigurau gwariant yn cynrychioli cyfanswm lefel uchel y cofnodion yn y siart cyfrifon, **heb eu haddasu** ar sail cyfrifiadau'r gyfradd ffioedd, er mwyn symrlwydd. Pe bai costau'n cael eu haddasu ar y sail honno, byddai'n ychwanegu cymhlethdod pellach at y broses diwedd blwyddyn sydd eisoes yn gymhleth, ond heb ychwanegu unrhyw werth na sicrwydd.


Yr hyn y mae'r Pwyllgor wedi tynnu ein sylw ato yw'r dryswch posibl y mae'r cyflwyniad hwn yn ei achosi, felly byddwn yn myfyrio ar y cyflwyniad hwnnw fel rhan o'n dysgu ar gyfer proses diwedd blwyddyn y flwyddyn nesaf.

Dyledwyr y GIG

Gofynnwyd i ni a ddylem fod yn bryderus ynghylch y cynnydd yn yr arian sy'n ddyledus i Archwilio Cymru gan gyrff y GIG fel y dangosir yn Nodyn 6 i'n datganiadau ariannol ar dudalen 115 yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Roedd y cynnydd hwn yn ganlyniad anfon anfonebau rhandaliadau ychydig yn hwyrach nag oedd wedi digwydd y flwyddyn flaenorol. Nid oes achos i boeni ac mae'r holl symiau a oedd yn weddill wedi dod i law ers hynny.

Peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni os oes yna eglurder pellach y gallwn ei roi fyddai o gymorth.

Yn gywir



ISOBEL EVERETT

Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru



ADRIAN CROMPTON

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynnig y Gyllideb Atodol 2020-21

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Hydref 2020

Cynnig y Gyllideb Atodol

1. Gofynnir i'r Senedd gytuno ar y canlynol:

- Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 gan Senedd Cymru ("y Senedd") yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf").

2. Dylai'r Cynnig Atodol hwn ar gyfer y Gyllideb gael ei ddarllen ochr yn ochr â dogfennau'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2020.

Llywodraeth Cymru

3. Awdurdodir Llywodraeth Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

4. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronuss, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronuss.

5. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2021 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

6. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronuss a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2021 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

7. O dan Adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall cynnig cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan unrhyw gorff sy'n gorff dynodedig mewn perthynas â pherson perthnasol. Mae adnoddau'r cyrff sydd wedi'u dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 (fel y'i diwygiwyd) wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn ar gyfer y gyllideb atodol.

Comisiwn y Senedd

8. Awdurdodir Comisiwn y Senedd -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

9. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Swyddfa Archwilio Cymru

10. Awdurdodir Swyddfa Archwilio Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronnus

11. Mae'r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o'r Ddeddf.”

Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

Gweinidogion Cymru

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,340,079	68,636
Tai a Llywodraeth Leol	5,511,736	17,349
Yr Economi a Thrafnidiaeth	2,940,449	60,132
Addysg	2,556,077	317,082
Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol	260,915	5,165
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	549,107	97,177
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	411,878	411,113
Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru	22,570,241	976,654

Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Comisiwn y Senedd	59,575	220
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	5,110	17
Swyddfa Archwilio Cymru	8,228	14,004
Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol	72,913	14,241

Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyflenwi gwasanaethau GIG craidd a gwasanaethau GIG wedi'u targedu, gan gynnwys namau a darpariaethau; cefnogi addysg a hyfforddiant i weithlu'r GIG, polisïau a deddfwriaeth iechyd meddwl, hosbisau a chyflawni cynllun gweithredu'r strategaeth camddefnyddio sylweddau; noddi cyrff iechyd cyhoeddus, yr Asiantaeth Safonau Bwyd; rhaglenni iechyd y cyhoedd; trefniadau effeithiol i baratoi ar gyfer argyfwng iechyd; datblygu a gweithredu ymchwil a datblygu er budd cleifion a'r cyhoedd; gofal a chymorth cymdeithasol, partneriaethau ac integreiddio, gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, Gofal Cymdeithasol Cymru; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Plant a CAFCASS; gwariant ar gefnogi plant ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	<p>10,340,079</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Tai a Llywodraeth Leol</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar dai, llywodraeth leol a chymunedau, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyllid i gefnogi llywodraeth leol, gan gynnwys cyllid cyfalaf cyffredinol a gwasanaethau prisio; meithrin democratiaeth leol; cefnogi cydweithio, diwygio a gwella. Cyllid ar gyfer cynllunio a rheoleiddio a thai i gynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai fforddiadwy a thai'r farchnad; i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi drwy rhaglen Cefnogi Pobl, y rhaglen Byw'n Annibynnol a'r Gronfa Gofal Integredig ac i atal digartrefedd. Cyllid i gefnogi cymunedau, gan gynnwys Adfywio, Cynhwysiant Ariannol a Chynhwysiant Digidol; y Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd. Rheoli a gweithredu'r strategaeth wastraff a chaffael gwastraff, Parciau Cenedlaethol, Academi Wales, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn. Hefyd yn cynnwys unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	5,511,736

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Yr Economi a Thrafnidiaeth</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi a Thrafnidiaeth, gan gynnwys hybu a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.</p> <p>Gwariant ar sectorau a datblygu busnes rhanbarthol; entrepreneuriaeth a gwybodaeth fusnes; darparu seilwaith TGCh a seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo; rhaglenni corfforaethol a strategol; Banc Datblygu Cymru; Cyllid Cymru; gweithrediadau traffyrdd a chefnffyrdd; gwella a chynnal y rhwydwaith cefnffyrdd; gwasanaethau a buddsoddiadau ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr; teithio cynaliadwy; gwella diogelwch ar y ffyrdd; dysgu'n seiliedig ar waith; darparu cymorth ar gyfer sgiliau; polisi sgiliau; cyflogaeth a sgiliau; dewisiadau addysgol a gyrfaol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy'n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru.</p>	2,940,449

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Addysg</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Gwariant ar safonau addysg a hyfforddiant, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth, cymwysterau, addysg ôl-16, addysg uwch, grant amddifadedd disgyblion, TGCh a systemau rheoli gwybodaeth, a darpariaeth TG ac ystadau; ymgysylltiad a chyflogaeth ieuenctid; llesiant plant a phobl ifanc; cymorth i ddysgwyr ôl-16; enbyn diddordeb disgyblion; addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; cymorth cyflawni; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	2,556,077

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.</p> <p>Gwariant ar allforio, masnach a mewnfuddsoddi, twristiaeth a Digwyddiadau Cymru i hyrwyddo Cymru; cefnogi diwylliant a'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Cymru Greadigol ac eraill; cymorth i ddiwylliant a chwaraeon lleol; y cyfryngau a chyhoeddi; cefnogi'r amgylchedd hanesyddol a naturiol drwy Cadw, Gerddi Botaneg Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru; hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy Chwaraeon Cymru ac eraill; cefnogi'r Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg; hyrwyddo datblygu rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy'n rhoi budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i Gymru.</p>	<p>260,915</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol, amaethyddiaeth, bwyd a'r môr; datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd, seilwaith gwyrdd, diogelu'r amgylchedd, perygl o lifogydd a pherygl i'r arfordir, a pholisi a deddfwriaeth dŵr a charthion; Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi; darparu polisiâu gwarchod natur a choedwigaeth; noddi a rheoli cyrff cyflawni; datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig.; gwarchod iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn a datblygu polisiâu addasu genetig; hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig a mynediad ehangach at fannau gwyrdd; gweinyddu a chyflawni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig; cefnogi newydd-ddyfodiaid i ffermio, ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru; datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer materion gwledig; datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru, gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru; datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	<p>549,107</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu ac ar hyrwyddo cydraddoldeb; atal trais; cynghori ac eiriolaeth; cydnerthedd ac argyfyngau sifil posibl; cyfiawnder ieuenctid; swyddogion cymorth cymunedol; y rhaglen cyfleusterau cymunedol a chefnogi'r sector gwirfoddol.</p> <p>Gwariant ar gostau rhedeg Llywodraeth Cymru (gan gynnwys costau staff; gweinyddu cyffredinol; rheoli asedau; cyfalaf a thaliadau cyfalaf; costau TG; gwella busnes; a darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a phensiynau; costau etholiadau a refferenda; gwybodaeth ystadegol ac ymchwil; cyllido cyrff allanol; cyfrifoldebau cyllidol (gan gynnwys trethi datganoledig a benthyca); gwasanaethau caffael (Cymru gyfan); digwyddiadau a chyfathrebu corfforaethol; ymholiadau ac ymchwiliadau; y Gronfa Buddsoddi i Arbed; y Gronfa Rhyddhau Tir: rheoli'r modd y darperir cyllid Ewropeaidd yng Nghymru; atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; cynghori ac eiriolaeth; cydnerthedd ac argyfyngau sifil posibl; glasbrintiau troseddwr benywaidd a chyfiawnder ieuenctid; swyddogion cymorth cymunedol; y rhaglen cyfleusterau cymunedol; cefnogi'r sector gwirfoddol; a sefydlu a chynnal safleoedd Sipsiwn/Teithwyr ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	<p>411,878</p>

Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronrus gan Weinidogion Cymru**Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronrus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronrus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; incwm o hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013: cynlluniau creu incwm; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo, ac adennill TAW; incwm o gynlluniau a chytundebau ad-dalu.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	68,636

Rhan 2: Tai a Llywodraeth Leol

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian grant uniongyrchol neu anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys Interreg; ad-daliadau ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; incwm o werthiant asedau cyfalaf; incwm o aiddosbarthu buddiannau aelodau mewn buddsoddiadau; incwm o ad-daliadau'r Grant Tai Cymdeithasol; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; taliadau am gofrestriadau deintyddol; incwm o secondiadau staff; ad-dalu benthyciadau gan gynnwys benthyciadau staff; incwm o rentu eiddo; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau'r Arolygiaethau a'r Tribiwnlys Prisio; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru; gwariant ategol ar gymunedau mwy diogel ac adfywio; talu grantiau i awdurdodau lleol a chyrff y Trydydd Sector; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	17,349

Rhan 3: Yr Economi a Thrafnidiaeth

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Adnoddau cronnus ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall; taliadau gwasanaethau busnes; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; derbyniadau o astudiaethau trafndiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; ac adennill TAW.	Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	60,132

Rhan 4: Addysg

Colofn 1 <i>Categori adnoddau cronnus</i>	Colofn 2 <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o brosiectau Ewropeaidd, ymchwil a gwerthuso; breindaliadau cwricwlwm; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW.</p> <p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys ad-daliadau ac adennill taliadau grant; incwm yn gysylltiedig â gweithgareddau ym maes gwyddoniaeth a gwyddorau bywyd; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o werthiant asedau cyfalaf; adennill benthyciadau a wnaethpwyd ac unrhyw daliadau llog arnynt; adennillion a grantiau ad hoc o ffynonellau eraill.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cefnogi prosiectau Ewropeaidd, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, datblygu rhaglenni, gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; i gefnogi gwariant cyfredol ar y cwricwlwm ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	317,082

Rhan 5: Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

<i>Colofn 1</i> <i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Adnoddau cronnus ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd; ffioedd a godwyd am wasanaethau busnes; cyfraniadau prosiectau ac incwm arall gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grantiau a chyllid busnes ad-daladwy; ffioedd mynediad ac incwm gweithredol arall ar gyfer Cadw; y Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a chyrff a noddir; Amgueddfa Cymru; Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Chwaraeon Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; ac adennill TAW a threthi eraill.	Pob prosiect sy'n derbyn cyllid Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant fel y'i nodwyd yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	5,165

Rhan 6: Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd; incwm o'r UE i gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllpeiran; incwm o werthu asedau cyfalaf, gan gynnwys adeiladau; incwm o adennill grantiau o'r awdurdodau lleol, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill y sector cyhoeddus a'r sector preifat; dirwyon cosb sifil yn gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau; incwm o drwyddedau morol; incwm o achub carcasau o anifeiliaid sydd wedi'u lladd ar gyfer rheoli clefydau; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; arian o adrannau eraill y llywodraeth ganolog ac incwm sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â Fferm Pwllpeiran; taliadau grant, cynlluniau a ariennir yn rhannol gan adrannau eraill o'r llywodraeth; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	97,177

Rhan 7: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o weithgarwch gweinyddol megis: gwerthu nwyddau neu wasanaethau; gwerthu tir neu adeiladau; adennill costau; secondio staff a ffioedd staff; ad-dalu benthyciadau staff; adennill taliadau grant; ad-dalu didyniadau statudol o dan PAYE; adennill trethi gan gynnwys TAW; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwerthu nwyddau a gwasanaethau; incwm gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarparwyd; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill y costau a rennir â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus; derbyniadau o grantiau adenilladwy gan gynnwys derbyniadau Buddsoddi i Arbed; ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd.	Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu: costau cynnal a gwariant gweinyddol cyffredinol; cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth Cymru; cefnogi cydraddoldeb; atal trais; darparu cyngor; cydnerthedd a threfniadau wrth gefn; glasbrintiau troseddwy'r benywaidd a chyfiawnder ieuencid; cefnogi'r sector gwirfoddol; swyddogion cymorth cymunedol; y rhaglen cyfleusterau cymunedol ac unrhyw brosiect sy'n cael arian Ewropeaidd.
Cyfanswm yr incwm (£000)	411,113

Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronrus)

Rhan 1 – Comisiwn y Senedd

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
